

Adroddiad blynyddol a chyfrifon y Gronfa Gymunedol
2003/2004



Awst 2004

Code

© Cronfa Loteri Fawr, 2004

Design

Graphicsi.com

Print

Belmont Press

Copiau

Gellir cael rhagor o gopiau trwy ffonio 0845 1 10 20 30 a dyfynnu'r cyfeirnodau uchod

Neu wrth ebostio: ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk

Ffôn testun: 0845 0390204

8 y bore hyd 6 y nos Llun i Gwener

Hefyd ar gael ar eich cais mewn Braille, casét sain, yn Saesneg ar ddisg mewn print bras ac ieithoedd cymunedol

Rydym yn poeni am yr amgylchedd

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ceisio lleihau ei heffaith negyddol ar yr amgylchedd ac mae'n defnyddio adnoddau gwirioneddol gynaliadwy yn unig

Ein hymrwymiad i gyfleoedd cyfartal

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi ymroi i werthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cyfle cyfartal, fel dyfarnwr grantiau a chyflogwr. Nod y Gronfa Loteri Fawr yw gweithredu'n gynhwysol i sicrhau fod ymgeiswyr a derbynwyr grantiau, budd-ddelliaid, ymgeiswyr am swyddi a'n staff yn cael eu trin yn deg. Mae pob aelod o'n staff ac aelodau'r Bwrdd yn gyfrifol am gynnal a gweithredu ein polisi cydraddoldeb.

Cronfa Loteri Fawr yw'r enw a ddefnyddir gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd a Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol (a oedd yn dosbarthu grantiau dan enw'r Gronfa Gymunedol) wrth weithredu ar y cyd



Yn dyfarnu arian

Y Loteri Genedlaethol

Awarding funds from

The National Lottery®

Cronfa Gymunedol

ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON

Ar gyfer y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth

CYFLWYNWYD YR ADRODDIAD BLYNYDDOL MEWN CYDYMFFURFIAD AG ADRAN 34 (3) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL AYB 1993 (FEL Y DIWYGIWYD GAN DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL 1998) GAN YR YSGRIFENNYDD GWLADOL DROS DDIWYLLIANT, CYFRYNGAU A CHWARAEON.

PARATOWYD A CHYFLWYNWYD Y CYFRIFON YN UNOL AG ADRAN 43D (4) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL AYB 1993 (FEL Y DIWYGIWYD GAN DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL 1998) GAN Y RHEOLWR A'R ARCHWILIWR CYFFREDINOL

GORCHMYNWYD I'W ARGRAFFU GAN D_'R CYFFREDIN AR 28 HYDREF 2004.

GOSODWYD O FLAEN SENEDD YR ALBAN GAN WEINIDOGION YR ALBAN AR 28 HYDREF 2004

Cronfa Gymunedol

Adroddiad Blynyddol 2003 – 2004

Cynnwys	Tudalen
Adroddiad y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr	2
1. Perfformiad yn erbyn amcanion corfforaethol 2003/04	4
2. Ble aeth yr arian	10
3. Rhaglenni grant a grantiau	13
4. Cynllunio ar gyfer y dosbarthwr newydd	28
5. Gofal cwsmer	29
6. Cydraddoldeb	31
7. Cofrestr o ddiddordebau	33
8. Cysylltu â ni	34
9. Aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor	36
10. Cyfrifon blynyddol	38
11. Cefndir statudol	66
12. Rhestr o grantiau rhwng £100,000 a £250,000	71
13. Rhestr o grantiau dros £250,000	81

Cyflwyniad

Adroddiad y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Bu Adroddiad Blynyddol y llynedd yn edrych ymlaen at y cyfnod tyngedfennol a chyffrous a oedd yn wynebu'r Gronfa Gymunedol wrth iddi uno'n weinyddol gyda'r Gronfa Cyfleoedd Newydd cyn dyfodiad y Gronfa Loteri Fawr.

Wynebodd y Bwrdd yr her o hwyluso'r ffordd ar gyfer y trefniadau newydd tra, ar yr un pryd, yn dal ati i weinyddu holl raglenni grant y Gronfa Gymunedol. Cyflawnwyd hyn gydag ymrwymiad a brwdfrydedd o sylweddoli pa mor bwysig oedd rhoi sicrwydd i'r sector gwirfoddol a chymunedol am y dyfodol. Yn naturiol ddigon, mynegwyd pryderon yngl_n â'r hyn a fyddai'n digwydd ond, gydag ymateb positif y Llywodraeth i'r gydweledigaeth ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr a gyflwynwyd gan y ddau Fwrdd, mae manteision llawn y trefniadau bellach yn dod i'r amlwg.

Felly, yn nawfed Adroddiad Blynyddol y Gronfa Gymunedol, a'r olaf fel dosbarthwr Loteri unigol, dylem ddathlu'r hyn a gyflawnwyd. Ers mis Hydref 1995 pan gyhoeddwyd y grantiau cyntaf, mae dros £2.6 biliwn wedi'i ddyrannu i 60,000 o brosiectau sy'n cael eu rhedeg gan elusennau a mudiadau gwirfoddol a chymunedol ym mhob cwr o'r DU. Bu'r hanes yn un o lwyddiant rhyfeddol o'r cychwyn ddeng mlynedd yn ôl pan gynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o'r Bwrdd. Gan adeiladu ar y gwaith hwnnw rydym wedi sicrhau, trwy'r grantiau a ddosbarthwyd, bod pobl ddifreintiedig mewn cymunedau ledled pedair gwlad y DU wedi gallu elwa a gweld eu bywydau'n newid mewn ffyrdd na fyddent wedi ei ddychmygu pan sefydlwyd y Loteri.



Ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb brofiad a gwybodaeth pawb sydd wedi gwasanaethu ar y Bwrdd, ynghyd â'r holl bobl sydd wedi eistedd ar y Pwyllgorau Rhanbarthol yn Lloegr ac wedi cael eu cyfethol ar Bwyllgorau'r Gwledydd. Wedi dweud hynny, ni fyddai'r Bwrdd a'i Bwyllgorau wedi cyflawni hyn oll heb waith caled ac ymroddiad yr holl staff, boed yn y brif swyddfa neu yn swyddfeydd y gwledydd neu'r swyddfeydd rhanbarthol.

Gallwn fod yn falch iawn o'n gwaith. Mae'r aelodau hynny o'r Bwrdd a'r staff sydd wedi ymuno â Chronfa y Loteri Fawr yn mynd â deng mlynedd o wybodaeth a phrofiad gyda hwy sy'n golygu y bydd y Gronfa'n cael y dechrau gorau posibl ac y bydd yn gyfrwng daioni mawr trwy ddyfarnu grantiau mewn ffordd lwyddiannus a deallus..

Diana Brittan

Diana Brittan
Cadeirydd y Gronfa Gymunedol
(hyd at Fehefin 2004)

Stephen Dunmore

Stephen Dunmore
Prif Weithredwr

Adran 1

Perfformiad yn erbyn amcanion corfforaethol 2003/04

Mae Cynllun Gweithredol y Gronfa Gymunedol am 2003/04 yn amlinellu amcanion sy'n berthnasol i bob agwedd o'i gweithgareddau. Mae'r amcanion yn seiliedig ar y Cynllun Strategol a gyhoeddwyd yn Ebrill 2002. Ceir crynodeb o'r amcanion corfforaethol a'r dangosyddion perfformiad cysylltiedig isod, ynghyd â manylion am y lefelau perfformiad a gyflawnwyd.

1. Targedau ein grantiau

(a) Cwrdd â thargedau gwariant grantiau mewn ardaloedd cyfran deg

Dangosydd perfformiad

75% o'r ardaloedd **cyfran deg** i elwa ar wariant grant sydd gymaint neu fwy na 66% o'u targed tair blynedd erbyn 31 Mawrth 2004

Adroddiad diwedd blwyddyn

Mae 74% o ardaloedd wedi elwa ar wariant grant sydd gymaint neu fwy na 66% o'u targed tair blynedd.

(b) To achieve grant spend targets for priority beneficiary groups.

Dangosydd perfformiad

Cwrdd â thargedau gwariant grantiau ar gyfer grwpiau blaenoriaeth Y targed wedi'i fynegi fel % o gyfanswm y gwariant grant yn ystod 2003/04:

■ plant a phobl ifanc: 15%

■ pobl hŷn a'u gofalwyr: 12%

■ pobl anabl a'u gofalwyr: 20%

■ pobl sy'n byw mewn ardaloedd sy'n ddifreintiedig oherwydd newid cymdeithasol ac economaidd: 19%

Adroddiad diwedd blwyddyn

Y ffigurau gwirioneddol a gyflawnwyd yn 2003/04 oedd:

■ plant a phobl ifanc: 18%

■ pobl hŷn a'u gofalwyr: 12%

■ pobl anabl a'u gofalwyr: 21%

■ pobl sy'n byw mewn ardaloedd sy'n ddifreintiedig oherwydd newid cymdeithasol ac economaidd: 21%

■ ffoaduriaid a cheiswyr lloches: 5%

■ cymunedau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig: 12%

■ ffoaduriaid a cheiswyr lloches: 5%

■ cymunedau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig: 10%

(c) Datblygu trefniadau i adrodd ar nifer y buddiolwyr yn seiliedig ar ddata sy'n cael eu coladu hyd at 31 Mawrth 2003

Dangosydd perfformiad

Datblygu a gweithredu trefniadau i adrodd ar nifer y buddiolwyr (cytunir ar hyn ar ôl dadansoddi data sy'n cael eu casglu hyd at 31 Mawrth 2003)

(d) Gweithredu argymhellion y papur Llywodraethu a Dyrannu Grantiau a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn Nhachwedd 2002

Dangosydd perfformiad

Cydymffurfio'n llwyr â'r argymhellion a'r arferion gorau sydd wedi eu cynnwys yn y papur.

Adroddiad diwedd blwyddyn

Mae nifer y buddiolwyr wedi eu cynnwys ar dudalen 15 yr adroddiad hwn.

Adroddiad diwedd blwyddyn

Cyflawnwyd

2. Ffocws ar Ganlyniadau Prosiectau

(a) Dangos bod ein grantiau'n arwain at newidiadau ym mywydau ein buddiolwyr

Dangosydd perfformiad

Cyflwyno Fframwaith Canlyniadau y cytunwyd arno yn Awst 2003 i ddadansoddi grantiau a ddyrannwyd yn 2003/04.

Adroddiad diwedd blwyddyn

Roedd y fframwaith wedi'i gyflwyno erbyn Awst 2003 ac mae'r dadansoddiad o ddyraniad grantiau'n cael ei gynnal.

(b) Gweithredu newidiadau sy'n deillio o'r Prosiect Canlyniadau

Dangosydd perfformiad	Adroddiad diwedd blwyddyn
Dadansoddi sampl o ddatganiadau canlyniad a gofnodwyd ar Grynodedbau Asesu (erbyn 30 Mehefin 2003)	Cyflwynwyd ar amser
Cofnodi arferion gorau sy'n deillio o'r dadansoddiad a thrafodaethau gyda Swyddogion Grant (erbyn 30 Medi 2003)	Cyflwynwyd ar amser
Dadansoddi profiad y Pwyllgor o bortffolios a phenderfyniadau (erbyn 30 Medi 2003)	Mae'r gwaith hwn wedi ei ddisodli gan adolygiadau o strwythurau sy'n deillio o'r uniad a fydd yn digwydd trwy gydol 2004/05.
Produce a guide for staff on methods of tracking outcomes (by 30 November 2003).	Edrychwyd o'r newydd ar hyn ar ôl ymgynghori Swyddogion Grant (SG): teimlwyd y byddai hyfforddiant yn fwy priodol na chanllawiau. Gweler isod
Gyda'r tîm Dysgu a Datblygu (L&D), datblygu cynllun hyfforddi a datblygu canlyniadau i bob aelod o staff (dylid cytuno ar y cynllun erbyn 30 Medi 2003)	Cyflawnwyd. Cytunwyd ar gynllun ar 30 Medi. Cwblhawyd adolygiad o systemau olrhain a ddefnyddir gan ymgeiswyr yn Ionawr 2004. Mae Dysgu a Datblygu wedi cynllunio hyfforddiant cynefino GO ac wedi cynhyrchu modiwlau hyfforddi yn sgil hyn.

Datblygu proses systematig er mwyn dysgu o'r grantiau ydym yn eu dyfarnu (papur i Grŵp Rheolwyr Gweithredol Medi 2003)

Cyflwynwyd y papur i Grŵp Rheolwyr Gweithredol Rhagfyr. Mae'r gwaith o'i weithredu wedi ei ddisodli gan adolygiadau o strwythurau sy'n deillio o'r uniad a fydd yn digwydd trwy gydol 2004/05.

Trefnu Cynhadledd ar ddull y Gronfa Gymunedol o ymdrin â chanlyniadau cyllido (i'w chynnal erbyn 30 Tachwedd 2003)

Mae'r gwaith hwn wedi ei ohirio oherwydd adolygiadau o strwythurau sy'n deillio o'r uniad a fydd yn digwydd trwy gydol 2004/05.

3. Gweithio'n fwy clos gydag eraill

(a) Sefydlu cysylltiadau ffurfiol gyda phartneriaid strategol allweddol

Dangosydd perfformiad	Adroddiad diwedd blwyddyn
Sefydlu cytundebau partneriaeth i ganfod nodau ac amcanion allweddol a dangosyddion perfformiad	Heb ei gyflawni. Mae gwaith ar gytundeb peilot gyda'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (LSC) wedi cychwyn. Mae'r gwaith hwn wedi ei ohirio oherwydd y gweithgareddau sy'n deillio o'r uniad yn ystod 2004/05.

Adran 1

(b) Datblygu cynlluniau cyllido ar y cyd gyda dosbarthwyr arian y loteri a chyllidwyr eraill.

Dangosydd perfformiad	Adroddiad diwedd blwyddyn
O leiaf dri chynllun cyllido pilot ar y cyd erbyn 31 Mawrth 2004	Cynlluniau wedi eu cyflwyno yng Nghymru, Gogledd Orllewin Lloeg a Swydd Efrog a'r Humber.

(c) Datblygu atodiadau lleol i Bapurau Blaenoriaeth cenedlaethol

Dangosydd perfformiad	Adroddiad diwedd blwyddyn
Bydd Papurau Blaenoriaeth cenedlaethol ar bob un o'r grwpiau buddiolwyr blaenoriaethol yn cael eu cyhoeddi yn ystod y flwyddyn i 31 Mawrth 2004	Cyflawnwyd: mae amryw o bapurau wedi eu dosbarthu yn ystod y flwyddyn.

Atodiadau lleol i'w cwblhau gan swyddfeydd Gwlad / Rhanbarthol o fewn deufis ar ôl cyhoeddi pob papur	Cyflawnwyd: mae trefniadau wedi amrywio rhwng rhanbarthau, i gyd-fynd â gofynion y gwahanol swyddfeydd a phwyllgorau.
---	---

4. Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein trefniadau rheoli a gweinyddu

(a) Cyhoeddi amser ar gyfer prosesu ceisiadau am grant

Dangosydd perfformiad	Adroddiad diwedd blwyddyn
Grantiau Mawr: 95% o geisiadau wedi eu hysbysu o fewn pum mis	91% wedi eu hysbysu o fewn yr amser a bennwyd.
Grantiau Canolig: 95% o geisiadau wedi eu hysbysu o fewn pedwar mis	91% wedi eu hysbysu o fewn yr amser a bennwyd.

Arian i Bawb: 95% o geisiadau wedi eu hysbysu o fewn tri mis	94.3% wedi eu hysbysu o fewn yr amser a bennwyd.
--	--

(b) Gwneud y gwaith o redeg y busnes mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

Dangosydd perfformiad	Adroddiad diwedd blwyddyn
Cyflawni'r holl weithgareddau a gynlluniwyd o fewn y gyllideb weinyddol y cytunwyd arni ar gyfer 2003/4	Cyflawnwyd. Roedd y costau gweinyddol gwirioneddol £2.9 miliwn (10%) yn llai na'r cyllidebau y cytunwyd arnynt

(c) Gweithredu argymhellion swyddfa adeiladau y Gronfa Gymunedol

Dangosydd perfformiad	Adroddiad diwedd blwyddyn
Gweithredu pob un o argymhellion yr adolygiad adeiladau	Wedi ei ymgorffori i'r gwaith cynllunio ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr

(d) Prif ffrydio cydraddoldeb i bob agwedd o fusnes y Gronfa Gymunedol

Dangosydd perfformiad	Adroddiad diwedd blwyddyn
Cyfarpar prif ffrydio'n cael eu defnyddio'n gyson yn achos polisiau a gweithdrefnau	Gwaith parhaus o sicrhau bod y cyfarpar yn cael eu defnyddio'n gyson.
Sefydlu systemau casglu gwybodaeth effeithiol i sicrhau bod modd asesu effaith polisiau a gweithdrefnau ar gydraddoldeb	Mae system wedi ei sefydlu asesu effaith polisiau a gweithdrefnau newydd ar gydraddoldeb.

Cydraddoldeb prif ffrwd i gael eu hymgorffori ddarpariaeth hyfforddiant staff, ac aelodau'r Bwrdd Pwyllgor yn y dyfodol

Mae'r gwaith hwn wedi ei ohirio oherwydd adolygiadau o strwythurau sy'n deillio o'r uniad a'r fydd yn digwydd trwy gydol 2004/05.

Rhaglen hyfforddi orfodol ar gyfer staff gyda rolau arbenigol ac aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor i gael ei chyflwyno, er mwyn gweithredu'r strategaeth

Datblygwyd y rhaglen hyfforddi a bydd yn cael ei hystyried fel rhan o'r broses o sefydlu Bwrdd y Gronfa Loteri Fawr.

(e) Gweithredu gofynion dyletswyddau cyflogi penodol Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000

Dangosydd perfformiad **Adroddiad diwedd blwyddyn**

Yr adroddiadau cychwynnol a gynhyrchwyd gan Personél Corfforaethol i fod yn sail i ddatblygiad cynlluniau gweithredu

Materion allweddol wedi eu hadrodd i'r Grŵp Llywio Cydraddoldeb.

Meini prawf i ganfod anghydbwysedd mewn personél afresymol wedi ei bennu gan ESG

Cyflawnwyd.

Cynlluniau gweithredu wedi eu datblygu gan bob gwlad/rhanbarth/adran i roi sylw i anghyfartaleddau afresymol o safbwynt ethnigrwydd, rhyw ac anabledd (ac – ar gyfer Gogledd Iwerddon yn unig – cefndir cymunedol)

Cynlluniau wedi eu datblygu ar lefel gyfundrefnol yn unig, yn hytrach na fesul adran, oherwydd bod cyn lleied o ddata ar gael.

(f) Prif ffrydio rheoli risg i bob agwedd o fusnes y Gronfa Gymunedol

Dangosydd perfformiad **Adroddiad diwedd blwyddyn**

Pob gwlad/rhanbarth/adran i gynhyrchu cofrestr risg sy'n ymwneud â'u gallu i gyflawni amcanion lleol yn 2003/04 ac sy'n cael ei hadolygu'n gyson

17 o'r 21 gwlad/rhanbarth/adran wedi cynhyrchu ac adolygu cofrestri risg lleol.

(g) Gweithredu newidiadau i arferion cyn cyflwyno cais, asesu a rheoli grantiau sy'n deillio o Ddyfarnu Grantiau 2004 (GM04) – ein prosiect i ddyfeisio prosesau dyfarnu grantiau symlach a haws.

Dangosydd perfformiad **Adroddiad diwedd blwyddyn**

Cytuno ar dargedau perfformiad penodol ym Medi 2003 ar ôl derbyn adroddiad opsiynau ac argymhellion Bwrdd Prosiect GM04

Gyda'r uniad mewn golwg, lansiwyd cynllun peilot GM04 yn swyddfeydd yr Alban yn Ionawr 2004.

Adran 1

5. Datblygu ein pobl i sicrhau bod pawb yn cyflawni ei botensial o fewn y sefydliad

Dangosydd perfformiad Adroddiad diwedd blwyddyn

(a) Sefydlu cynllun peilot a gwerthuso'r broses o weithredu'r Prosiect Cymhwysedd

Model Cymhwysedd a dogfennaeth ategol i gael eu cyflwyno ar ffurf cynllun peilot mewn 5 swyddfa dyrannu grant rhwng 1 Ebrill 2003 a 31 Mawrth 2004. Bydd y gwaith gwerthuso'n parhau trwy gydol cyfnod y cynllun peilot

Cyflwynwyd y cynllun peilot ac arweiniodd canlyniadau'r gwaith monitro a gwerthuso at newidiadau. Mae'r cynllun peilot wedi ei ymestyn tan Fedi 2004 i alluogi gwaith gwerthuso pellach o effeithiolrwydd y system arfarnu ac i fod yn yn sail i gynllunio'r system cymhwyseddau a gwerthuso ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr.

(b) Sicrhau bod gan bawb gynllun datblygiad personol

Dangosydd perfformiad Adroddiad diwedd blwyddyn

100% o'r staff i gael Cynllun Datblygiad Personol y cytunir arno erbyn 31 Gorffennaf 2003

Cyflawnwyd yn achos pob staff

(c) Sicrhau bod pob aelod o staff yn gallu cynnig adborth ar newidiadau sy'n effeithio ar eu swydd

Dangosydd perfformiad Adroddiad diwedd blwyddyn

Cynnal arolwg staff ar y cyd gyda'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn gynnar yn 2002

Mae'r gwaith hwn wedi ei ohirio oherwydd adolygiadau o strwythurau sy'n deillio o'r uniad a fydd yn digwydd trwy gydol 2004/05.

Datblygu, ymgynghori ar ac yna gweithredu ar gynllun gweithredu i roi sylw i faterion sy'n deillio o'r arolwg staff

Mae'r gwaith hwn wedi ei ohirio oherwydd adolygiadau o strwythurau sy'n deillio o'r uniad a fydd yn digwydd trwy gydol 2004/05.

(d) Darparu cefnogaeth i Bwyllgorau Dyrannu Grantiau

Dangosydd perfformiad Adroddiad diwedd blwyddyn

Darparu diweddariadau (ac, os bydd angen) hyfforddiant i aelodau'r Pwyllgor Dyrannu Grantiau ar newidiadau sy'n deillio o brosiectau sy'n effeithio ar y broses ddyrannu grantiau

Ymgynghorwyd ag aelodau'r pwyllgor yn Ebrill 2003 a darparwyd hyfforddiant i aelodau pwyllgor yr Alban ym Mawrth 2004.

(e) Cyflawni statws Buddsoddwyr mewn Pobl

Dangosydd perfformiad Adroddiad diwedd blwyddyn

Cyflawni statws Buddsoddwyr mewn Pobl

Mae'r gwaith hwn wedi ei ohirio oherwydd adolygiadau o strwythurau sy'n deillio o'r uniad a fydd yn digwydd trwy gydol 2004/05.

6. Hyrwyddo'r Gronfa Gymunedol fel y brif ffynhonnell cefnogaeth i'r sector gwirfoddol a chymunedol yn y DU

Hyrwyddo'r Gronfa Gymunedol mewn ffordd bositif fel y brif ffynhonnell cefnogaeth i'r sector gwirfoddol a chymunedol yn y DU ar adeg o newid

<p>Mynd ati'n rheolaidd i ganfod agweddau'r cyhoedd tuag at y Gronfa Gymunedol</p>	<p>Cynhaliwyd ymchwil yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn i ganfod barn y cyhoedd ac arweinwyr barn tuag at y Gronfa Gymunedol.</p> <p>Wrth i'r Adolygiad o'r Loteri a'r gwaith o greu'r Gronfa Loteri Fawr fynd yn eu blaen cynhaliwyd gwaith ymchwil pellach gan amryw o sefydliadau mewn partneriaeth â'r Gronfa Gymunedol.</p> <p>Rhannwyd y canfyddiadau gyda dosbarthwyr eraill. Mae meincnod wedi'i greu ac fe'i defnyddir i asesu effaith y Gronfa Loteri Fawr. Yn fwyaf diweddar mae'r gwaith hwn wedi canolbwyntio ar frand y sefydliad newydd.</p>	<p>Gweithredu, monitro ac adrodd ar effaith y camau a gymerwyd i sicrhau sylw rhagweithiol yn y wasg a'r cyfryngau ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol</p>	<p>Cyflawnwyd. Cynhaliwyd sesiynau briffio, seminarau a chynadleddau ar y cyd gyda'r Gronfa Cyfleoedd Newydd parthed yr Adolygiad o'r Loteri.</p> <p>Datblygwyd cyflwyniadau a sesiynau holi ac ateb ar y cyd gyda'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Mae gwaith Materion Cyhoeddus wedi cael ei ddatblygu ochr yn ochr â chreu'r Gronfa Loteri Fawr.</p>
<p>Dylanwadu, monitro ac adrodd ar ymatebion gwleidyddion a rhanddeiliaid allweddol yn y sector gwirfoddol a chymunedol i gynigion y dosbarthwr newydd</p>	<p>Cyflawnwyd. Cynhaliwyd sesiynau briffio, seminarau a chynadleddau ar y cyd gyda'r Gronfa Cyfleoedd Newydd parthed yr Adolygiad o'r Loteri.</p> <p>Datblygwyd cyflwyniadau a sesiynau holi ac ateb ar y cyd gyda'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Mae gwaith Materion Cyhoeddus wedi cael ei ddatblygu ochr yn ochr â chreu'r Gronfa Loteri Fawr.</p>	<p>Gweithredu, monitro ac adrodd ar effaith y camau a gymerwyd i sicrhau sylw rhagweithiol yn y wasg a'r cyfryngau ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol</p>	<p>Mae sefydlu'r Gronfa Loteri Fawr wedi creu cyfle i ddenu rhagor o sylw rhagweithiol yn y wasg genedlaethol. Yn sylw da i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn 2004. Mae sylw yn y cyfryngau rhanbarthol a lleol yn parhau i fod yn gryf.</p>
<p></p>	<p></p>	<p>Yn benodol, sicrhau bod swyddfeydd corfforaethol /gwlad/rhanbarthol yn adrodd ar sylw a geir yn y wasg a'r cyfryngau'n chwarterol, boed yn rhagweithiol neu adweithiol, a bod arferion da'n cael eu nodi a'u hailadrodd (pan yn berthnasol)</p>	<p>Unwaith eto mae'r uniad wedi creu cyfle i resymoli'r cyfryngau a systemau monitro eraill. Cafodd y rhain eu hadolygu ochr yn ochr â systemau'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ac mae'r holl doriadau'n awr yn cael eu cyflenwi o un ffynhonnell.</p>

Adran 2

Ble aeth yr arian

Yn 2003/04 dyfarnwyd 5,473 o grantiau gennym a oedd yn werth cyfanswm o £262,199,815. Derbyniwyd 11,228 o geisiadau am grant yn gofyn am £840,604,163.

Erbyn 31 Mawrth 2004, roedd cyfanswm yr arian a ddyfarnwyd gennym ers 1995 yn £2,819,380,607 i 61,326 o brosiectau.

Rhaglen	Nifer y Grantiau	Swm a Ddyfarnwyd
Grantiau Strategol	79	£17,798,897
Grantiau Ymchwil	31	£7,497,679
Rhyngwladol	42	£16,706,715
Cymru	373	£12,374,016
Yr Alban	670	£27,807,451
Gogledd Iwerddon	352	£9,436,809
Cyfanswm Swyddfeydd Lloegr	3,902	£169,485,487
● Gogledd Ddwyrain	292	£11,890,346
● Gogledd Orllewin	585	£30,663,483
● Swydd Efrog a'r Humber	430	£19,234,512
● Dwyrain y Canolbarth	325	£12,950,252
● West Midlands	467	£21,054,157
● Gorllewin y Canolbarth (West Midlands Community Buildings Pilot)	24	£1,092,743
● Dwyrain	356	£12,968,043
● Llundain	592	£28,295,887
● De Ddwyrain	455	£18,668,615
● De Orllewin	400	£13,760,192

1. Helpu pobl mewn angen

Dywed ein Cynllun Strategol mai un o'n nodau yw rhoi mwy o bwyslais ar y bobl fwyaf difreintiedig yn y DU a gwella ansawdd eu bywyd pan fyddwn yn dyfarnu grantiau. Mae'r tudalennau canlynol yn grynodedu sut y mae'r grantiau newydd a ddosbarthwyd gennym yn ystod y flwyddyn wedi gwneud hynny. Dim ond y grantiau o'n rhaglenni grant Mawr a Chanolig sydd wedi eu cynnwys yn y ffigurau hyn.

2. Ein grwpiau blaenoriaeth

Er mwyn ein helpu i roi mwy o bwyslais ar bobl mewn angen mae ein Cynllun Strategol yn enwi nifer o grwpiau blaenoriaeth. Mae hyn yn ein galluogi ni i fesur a monitro'r arian y mae'r grwpiau hyn yn ei dderbyn.

Rydym wedi dyfarnu cyfanswm o 1,390 o grantiau gwerth £171 miliwn eleni er budd pobl yn ein grwpiau blaenoriaeth. (Nid yw grantiau a ddyfarnwyd o dan ein Rhaglenni Rhyngwladol, Ymchwil ac Arian i Bawb Lloegr yn cyfrif tuag at flaenoriaethau corfforaethol.) Mae'r dadansoddiadau isod yn rhoi syniad o'r symiau yr ydym wedi eu rhoi i bob grŵp a'r math o waith a ariennir.

Bu rhai o'r grantiau o fudd i bobl sy'n dod o fewn mwy nag un gr_p - er enghraifft grantiau i helpu plant anabl - felly maent yn ymddangos fwy nag unwaith yn y dadansoddiad. Ni ellir felly adio'r ffigurau at ei gilydd i roi'r cyfansymiau uchod.

Pobl sy'n byw mewn ardaloedd sy'n ddifreintiedig oherwydd newid cymdeithasol neu economaidd, boed drefol neu wledig, gan gynnwys ardaloedd lle mae diwydiannau lleol yn dirywio, ardaloedd tlawd wedi eu hamgylchynu gan ardaloedd mwy ffyniannus, ardaloedd sy'n cael eu heffeithio gan ymfudiad.

Swm a Ddyfarnwyd

Cyfanswm	£53,914,173
Helpu pobl sydd o dan anfantais oherwydd ynysigrwydd gwledig	£7,381,115
Helpu pobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol difreintiedig	£19,867,772
Cefnogi neuaddau pentref	£9,863,496
Darparu cyngor, gwybodaeth a chwmsela	£16,022,424

Children and young people

Swm a Ddyfarnwyd

Cyfanswm	£46,211,853
Helpu pobl sy'n byw ag anabledau	£13,020,120
Sgowtiaid, geidiaid a grwpiau eraill mewn lifrai	£1,092,555
Cefnogaeth Gartref	£2,164,282
Darparu cyfleusterau gofal plant, meithrinfa neu gyfleusterau chwarae	£9,798,681

Pobl hŷn a'u gofalwyr

Swm a Ddyfarnwyd

Cyfanswm	£30,528,781
Helpu pobl hŷn sy'n byw gyda salwch tymor hir	£1,904,532
Helpu pobl hŷn ar incwm isel	£601,642
Cefnogaeth i fyw'n annibynnol	£4,500,343
Diogelwch y gymuned	£320,667
Cefnogaeth i'r sawl sy'n gofalu am bobl hŷn	£9,858,370

Pobl anabl a'u gofalwyr

Swm a Ddyfarnwyd

Cyfanswm	£53,867,092
Ei gwneud yn haws i gael gwaith	£3,651,795
Gwella mynediad i gyfleusterau cymunedol	£1,248,120
Cefnogaeth i fyw'n annibynnol	£7,695,464

Cymunedau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig (BME)

Swm a Ddyfarnwyd

Cyfanswm	£25,464,077
Helpu plant a phobl ifanc BME	£7,145,695
Helpu pobl BME hŷn	£2,764,350
Helpu pobl BME anabl	£5,615,148
Mynd i'r afael ag effeithiau hiliaeth	£2,471,771
Meithrin galluoedd y sector gwirfoddol BME	£2,677,325

Ffoaduriaid a cheiswyr lloches

Cefnogi mudiadau sy'n helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches a'r cymunedau ehangach sy'n eu derbyn

Swm a Ddyfarnwyd

Cyfanswm	£13,961,653
Helpu plant ffoaduriaid a cheiswyr lloches	£3,274,836
Helpu cymunedau a cheiswyr lloches	£2,672,407
Darparu cyngor, gwybodaeth a chwmsela	£8,568,966

Pobl eraill ddifreintiedig

Beth am y mathau hynny o angen nad ydynt yn dod o fewn un o'n grwpiau blaenoriaeth, neu sy'n gyffredin i nifer ohonynt? Rhoddir rhai ffigurau ar gyfer mathau eraill o grant isod.

Swm a Ddyfarnwyd

Helpu rhieni unigol	£4,835,006
Helpu pobl ddigartref	£6,377,140
Helpu teuluoedd carcharorion a chyn droseddwyr	£3,629,209
Helpu teuluoedd ar incwm isel	£13,735,317
Helpu pobl sy'n ddi-waith	£11,532,917
Mynd i'r afael â cham-drin sylweddau	£4,766,510
Cefnogi dioddefwyr troseddau	£1,960,915
Cefnogi pobl sy'n cael eu cam-drin	£4,671,835

Adran 2

3. Pobl yr ydym eisoes yn eu cefnogi

Rydym yn gofyn i fudiadau sy'n derbyn grantiau i baratoi adroddiad i ni ar ddiwedd pob blwyddyn eu prosiect. Rydym yn coladu'r wybodaeth hon i sicrhau bod gennym wybodaeth gynhwysfawr am nifer y bobl y mae'r prosiectau yr ydym yn eu hariannu'n eu helpu, a'r mathau o newid y mae'r prosiectau'n anelu at eu cyflawni.

Mae'r ffigurau a roddir isod yn grynodedb o'r adroddiadau a baratowyd gan bob mudiad a oedd i adrodd i ni yn ystod 2003/04. Mae'r ffigurau'n dangos nifer y bobl yr oeddent wedi eu helpu gyda'r nawdd yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Math o fuddiolwyr	Buddiolwyr
Cymunedau Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig	168,377
Plant a Phobl Ifanc	660,799
Pobl Anabl a'u Gofalwyr	680,939
Pobl Hŷn a'u Gofalwyr	417,082
Pobl mewn ardaloedd sydd dan anfantais oherwydd newid cymdeithasol neu economaidd	659,119
Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches	85,219



Adran 3

Rhaglenni grant a grantiau

Grantiau Strategol

Mae'r flwyddyn lawn gyntaf o ddyfarnu grantiau o dan y Rhaglen Grantiau Strategol newydd wedi ariannu prosiectau ym mhob un o'r chwe grŵp blaenoriaeth corfforaethol.

Mae seminarau cenedlaethol rheolaidd wedi helpu mudiadau i ddatblygu ceisiadau sy'n cwrdd â'r pum gofyniad allweddol, sef sefydlu cynllun peilot, dyblygu, gweithio mewn partneriaeth, trawsbyncio a dylanwadu. Lluniwyd y gofynion hyn er mwyn datblygu prosiectau enghreifftiol gyda chanlyniadau uwch a fydd yn arwain at newid parhaol. Cyflwynwyd proses ffurfiol cyn cyflwyno cais, lle gallai ymgeiswyr gyflwyno amlinelliad byr o gynlluniau eu prosiect ac yna dderbyn cyngor mewn ymateb ysgrifenedig. Roedd yr ymateb a gafwyd gan ymgeiswyr mewn gwerthusiad yn bositif gyda 66% o ymgeiswyr o'r farn fod yr ymateb ysgrifenedig yn eglur a dealladwy ac 20% arall o'r farn fod yr ymateb yn ddigonol. Newidiodd hanner yr ymatebwyr eu syniadau ar gyfer eu prosiect o ganlyniad i'r adborth a gafwyd

Trwy ddysgu oddi wrth ymgeiswyr a grantiau yn ystod y flwyddyn, newidiwyd pwyslais y rhaglen ym Mawrth 2004 er mwyn annog ymgeiswyr i gyflwyno cais am brosiectau sy'n dylanwadu ar bolisiau ac arferion. Dylai hyn sicrhau y bydd grantiau'n cael effaith fwy eang a phellgyrhaeddol fyth wrth fynd i'r afael ag anfantais yn ogystal â chreu gwell amgylchedd a fydd yn galluogi prosiectau loteri rhanbarthol i ffynnu..

Mae rhai o'r prosiectau yr ydym yn eu hariannu wedi cynnwys rhyw elfen o ddylanwadu eisoes, a'r gobaith yw y bydd prosiectau gyda mwy o bwyslais ar ddylanwadu yn cael eu cefnogi dros y flwyddyn nesaf.

Mae Gofal Arthritis, er enghraifft, wedi cychwyn prosiect a fydd yn golygu fod eu gwaith sy'n ymwneud â pholisiau cyhoeddus ac ymgyrchu yn cael ei dargedu'n well, yn fwy integredig, cynhwysol a chynaliadwy. Bydd yn rhoi cyfle i bobl leol ag arthritis i gyfrannu at gynllunio a chymryd rhan mewn gweithgareddau ymgyrchu a fydd yn lledaenu arferion ymgyrchu gorau yn ogystal â darparu gwybodaeth wedi'i thargedu ar gyfer llunwyr polisi.

Yn ystod y flwyddyn hefyd gwelwyd cynnydd sylweddol yn natblygiad elfen Grantiau Strategol y cynllun Cymunedau Cefn Gwlad – nawdd i wella bywydau pobl sy'n byw ac yn gweithio yn rhai o'n hardaloedd gwledig tlotaf. Bydd partneriaeth rhwng Ymddiriedolaeth Carnegie y DU a'r Gronfa Gymunedol yn goleuo ac yn alinio'r Grantiau Strategol o £2.2m gyda rhaglen grantiau'r Ymddiriedolaeth dros y tair blynedd nesaf.

Grantiau Ymchwil

Mae'r rhaglen hon yn adnodd unigryw i'r sector gwirfoddol a'i fuddiolwyr sy'n eu galluogi i gael llais yn yr hyn y dylid ymchwilio iddo a datblygu strategaethau ymchwil a chymdeithasol annibynnol.

Mae ein holl grantiau ymchwil yn cael eu dyrannu i fudiadau gwirfoddol sydd at ei gilydd yn gweithio mewn partneriaeth â phrifysgolion. Mae'r rhesymeg dros hyn yn syml. Mae rhwydweithiau rhwng y sector gwirfoddol a'r byd academiaidd yn wan ac mae'r cyfleon i gael gafael ar gyllid ymchwil yn brin a dweud y lleiaf. O ganlyniad, mae llawer o waith ymchwil perthnasol sydd wedi'i wneud eisoes heb fedru dylanwadu ar waith y sector; ac mae llawer o broblemau neu gyflyrau meddygol, nad ydynt efallai o bwys cenedlaethol ond sy'n effeithio ar leiafrif poblogaeth y DU, heb eu hateb neu eu hegluro. Mae chwilio am yr atebion hyn yn ganolog i'r grantiau ymchwil.

Adran 3

Ymhlith y grantiau a ddyrannwyd gennym yn ystod y flwyddyn ddiwethaf roedd £249,750 i ERIC (Enuresis Resource & Information Centre) i gynnal astudiaeth i'r ffactorau sy'n achosi plant i wlychu a baeddu yn ystod y dydd a'r nos. Nid yn unig y mae'r astudiaeth yn edrych ar y prif agweddau meddygol ond mae hefyd yn ceisio cael dealltwriaeth fwy trylwyr o'r effeithiau seicolegol cysylltiedig ar blant a'r allgau cymdeithasol y maent yn ei wynebu bob dydd. Enghraifft arall yw grant cymdeithasol gwerth dros £177,612 a ddyfarnwyd gennym i'r Howard League for Penal Reform. Nod yr astudiaeth hon yw edrych sut y gellid gostwng nifer yr achosion o ail droseddu ymhlith dynion ifanc ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o ddedfryd fer mewn carchar.

Ar ôl y ddwy flynedd gyntaf, adolygwyd y rhaglen yn drylwyr, ac mae hyn wedi tynnu sylw at yr angen i symleiddio ein gweithdrefnau. Fodd bynnag, dywedwyd yn bendant wrthym fod y rhaglen ar ei ffordd i gyflawni ei hamcanion gwreiddiol: ei gwneud yn haws i fudiadau gwirfoddol a'u buddiolwyr gael gafael ar ganfyddiadau gwaith ymchwil ystyrllon.

Grantiau Rhyngwladol

Rydym yn hapus iawn gyda'r ffordd y mae'r Rhaglen Grantiau Rhyngwladol wedi datblygu ar ôl ei ail lansio. Mae'r rhaglen yn wahanol i'r hyn ydoedd yn y gorffennol yn yr ystyr ei bod bellach yn un barhaus, felly gall ymgeiswyr wneud cais pan eu bod yn barod yn hytrach na gorfod rhuthro i gwrdd â dyddiad cau, ac mae hefyd wedi'i thargedu'n fwy penodol nag yn y gorffennol. Mae'n rhaid i brosiectau gyflawni canlyniadau mewn un neu ragor o bedwar maes blaenoriaeth y rhaglen: addysg gynradd, iechyd, defnydd o adnoddau naturiol, neu hawliau dynol. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cyd-fynd â phrif agweddau'r Targedau Datblygu (Amcanion y Mileniwm) sydd wedi eu mabwysiadu'n rhyngwladol a strategaeth datblygu tramor y Llywodraeth a'u nod yw gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl dlotaf a mwyaf ymylol y byd.

Mae Cyfarwyddiadau Polisi'r Ysgrifennydd Gwladol yn mynnu bod y Gronfa Gymunedol yn rhoi sylw i fuddiannau elusennau a mudiadau gwirfoddol eraill o'r DU sy'n gweithio mewn gwledydd tramor. Er mai dim ond cyfran fechan o gyllideb y Gronfa Gymunedol sy'n cael ei neilltuo i'r Rhaglen Grantiau Rhyngwladol (6 y cant y flwyddyn ar hyn o bryd), mae'n gwneud cyfraniad sylweddol at ymdrechion arbenigol sector datblygu rhyngwladol Prydain. Mae galw mawr am y rhaglen ac rydym yn derbyn mwy o geisiadau o safon uchel nag yr ydym yn medru eu cyllido. Roedd y gyllideb am y flwyddyn yn £16.7 miliwn.

Mae enghreifftiau o brosiectau a gefnogwyd eleni'n cynnwys grant o £742,117 i Oxfam i ddileu afiechydon sy'n cael eu trosglwyddo gan ddŷr megis y dolur rhydd a cholera mewn cymunedau yn ardaloedd sych Gogledd Ddwyrain Brasil trwy alluogi cartrefi i ddatblygu systemau storio dŵr effeithiol. Derbyniodd Widows and Orphans International, sydd wedi eu lleoli yn Dagenham, Essex, grant o £199,908 ar gyfer eu gwaith yn ardal Nyando yn Kenya i ddarparu cefnogaeth gorfforol ac emosiynol i weddwon, plant amddifad a phobl sy'n byw â HIV/AIDS yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o HIV trwy ddarparu gwasanaethau profi gwirfoddol, cwnsela a chefnogi.

Mae'r rhaglen newydd wedi ei chynllunio i ymgorffori'r arferion gorau mewn datblygu. Ein nod yw sicrhau mai achosion tlodi ac anfantais sy'n cael y sylw yn hytrach na'u symptomau'n unig fel bod y prosiectau'n arwain at fuddiannau cynaliadwy.



Cymru

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym Mawrth 2004 buom yn datblygu partneriaeth gyllido gyda'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Trwy'r partneriaethau hyn dyfarnwyd grantiau gwerth £1 miliwn i brosiectau sy'n darparu gwasanaethau cynghori i glientau blaenoriaeth.

Buom yn paratoi ar gyfer ein huniad gyda'r Gronfa Cyfleoedd Newydd trwy weithio ar y cyd gyda staff y Gronfa Cyfleoedd Newydd ar waith cysylltiadau cyhoeddus ac asesu rhaglenni grant Clefyd Coronaidd y Galon, Canser a Strôc ac Addysg Gorfforol a Chwaraeon. Buom hefyd yn hyrwyddo manteision yr uniad mewn digwyddiadau, ar y cyd gyda Chydweithwyr o'r Gronfa Cyfleoedd Newydd.

Parhau i fynd o nerth i nerth fu hanes ein gwaith o ddosbarthu arian y Loteri ar y cyd a chynhaliwyd digwyddiadau ledled Cymru gyda chefnoogaeth Aelodau'r Cynulliad. Dangosodd gwerthusiad o'r digwyddiadau hyn bod y gwaith wedi ei groesawu ac y dylid parhau â'r dasg.

Croesodd Arian i Bawb Cymru, y rhaglen dosbarthu grantiau bach y Loteri sy'n cael ei rhedeg ar y cyd gyda'r Gronfa Cyfleoedd Newydd a Chronfa Dreftadaeth y Loteri), y trothwy £5 miliwn. Mae llwyddiant ein gwaith allgymorth i hyrwyddo'r rhaglen wedi golygu ein bod wedi cynyddu faint o arian sydd ar gael er mwyn cwrrd â'r galw.

Rydym wedi parhau i hybu ein Cynllun Iaith Gymraeg a chawsom ein cydnabod am ein hymdrechion yn hyn o beth yng nghanlyniad arolwg o wefannau a gynhaliwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, a dynnodd sylw at ein gwefan fel enghraifft o 'arfer da'.

Adran 3



Dechreuwyd gweithio ar raglen o gynlluniau gweithredu allgymorth ar gyfer pob un o'n meysydd targed a grwpiau blaenoriaeth.

Yn ystod 2003/04 gwelwyd gostyngiad yn nifer y ceisiadau yr ydym yn eu derbyn. Gellir priodoli hyn yn rhannol i'r ansicrwydd ynglŷn â'n statws cyllido yn ystod y trafodaethau ar yr uniad. Gallai hefyd ddeillio o'r ffaith ein bod wedi cynyddu ein cefnogaeth cyn gwneud cais er mwyn gostwng nifer yr ymgeiswyr anghymwys sy'n gwneud cais i'n rhaglenni. Rydym wedi ceisio atal y dirywiad yn nifer y ceisiadau trwy dargedau ASau ac Aelodau'r Cynulliad a gwneud mwy o waith gyda'r sector gwirfoddol a'r wasg

Yr Alban

Gwelwyd adfywiad mewn dyraniadau grant yn yr Alban eleni yn sgil cyflwyno proses ymgeisio newydd – prosiect peilot, a fydd, os yn llwyddiannus yn yr Alban, yn cael ei ymestyn i weddill y DU. Mae wedi ei gynllunio i gyflymu'r broses ymgeisio, rhwystro cwsmeriaid sy'n annhebygol o fod yn llwyddiannus rhag gwneud cais yn y lle cyntaf, a darparu mwy o gefnogaeth cyn gwneud cais i ymgeiswyr sydd â phrosiectau sy'n debygol o gael eu hariannu..

Mae ymgeiswyr yn yr Alban yn awr yn anfon cynnig amlinellol sy'n cynnwys gwybodaeth elfennol am eu prosiect, faint fydd yn ei gostio a pha wahaniaeth tymor hir y bydd yn ei wneud. Rydym yn rhoi adborth iddynt – o fewn deng niwrnod gwaith – i'w hysbysu a yw'n debygol o gael ei gyllido gan Bwyllgor yr Alban.

Os yw'r prosiect yn un ymarferol ond bod angen gwaith ychwanegol arno, byddwn yn egluro sut y gallant wneud hynny. Os ydym o'r farn y gallai'r grŵp wneud cais llawn byddwn yn anfon ffurflen gais atynt sydd wedi ei phersonoli i gynnwys manylion am y mudiad a'i brosiect.

If the project is unlikely to be funded, we will say so and where we can, signpost the applicant to other funders or sources of help. Hundreds of organisations have taken advantage of the outline proposal to approach us for funding – and it is proving popular.

Os nad yw'r prosiect yn debygol o gael ei gyllido, byddwn yn dweud hynny ac os yn bosibl, byddwn yn eu cyfeirio at gyllidwyr neu ffynonellau cymorth eraill. Mae cannoedd o fudiadau wedi manteisio ar y defnydd o geisiadau amlinellol i gysylltu â ni am nawdd – ac mae wedi bod yn boblogaidd dros ben

Tra'n bod ni wedi bod yn gweithio ar y cynllun peilot hwn mae'r gwaith o ddosbarthu grantiau wedi bod yn mynd yn ei flaen. Rydym wedi cwrdd â bron bob un o'n targedau ar gyfer grwpiau buddiolwyr, yn enwedig pobl anabl a'u gofawyr sydd wedi derbyn bron i £2.5 miliwn yn fwy na'r hyn a amcangyfrifwyd.

Ein targed cyfran deg ar gyfer diwedd ail flwyddyn y cynllun oedd i weld ardaloedd yn elwa ar wariant grant a oedd yn cyfateb i 67 y cant o'u cyfanswm blwyddyn tri a llwyddwyd i gwrdd â hwnnw, er bod rhai ardaloedd wedi perfformio'n well na'r disgwyl ac mae angen cefnogaeth ychwanegol ar rai o hyd.

Gogledd Iwerddon

Mae lefel uchel o alw a chyllideb grantiau is wedi cael effaith fawr ar ein gwaith yn ystod 2003/04. Roedd y ceisiadau am gyllid dros £45 miliwn, gyda phob un yn gobeithio cael gafael ar rywfaint o'r £9.5 miliwn a oedd ar gael. Mae hyn wedi golygu nad oedd gennym ddigon o arian i gyllido pob mudiad a oedd yn gwneud cais, a bod y pwyslais ar brosiect o safon uchel bellach yn bwysicach nag erioed, ynghyd â gofyniad ychwanegol am dystiolaeth bendant, gan grwpiau sy'n gwneud cais, y bydd ein grantiau'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gymunedau diffreintiedig ledled Gogledd Iwerddon.

Mae'r gostyngiad yn yr arian sydd ar gael wedi golygu bod nifer y grantiau a ddyfernir hefyd wedi gostwng. Mae cyfradd llwyddiant y ceisiadau wedi gostwng o 34 y cant y llynedd i 26 y cant eleni..

Gwelwyd, fodd bynnag, nifer o ddyfarniadau arbennig yn ystod eleni. Roedd y mwyaf ohonynt i'r Ulster Cancer Foundation a dderbyniodd £200,000 i helpu adeiladu canolfan cancer bwrpas; yn Belfast. Gydag un o bob tri pherson yng Ngogledd Iwerddon yn datblygu cancer yn ystod eu hoes, bydd y ganolfan yn darparu gwasanaethau ychwanegol ac yn golygu dyfodol mwy disglair i genedlaethau'r dyfodol.

Yn ystod Blwyddyn Pobl ag Anableddau 2003, dyfarnwyd nifer o grantiau i grwpiau anabled, gyda chyfanswm o £2,187,255 yn cael ei ddosbarthu i 21 o brosiectau anabled.

Rydym hefyd wedi parhau i arwain rhaglen gydraddoldeb y Gronfa Gymunedol o Ogledd Iwerddon.

Yn ystod y flwyddyn hefyd gwelwyd cychwyn newidiadau i'r Gronfa Gymunedol, gyda dyfodiad yr uniad gyda'r Gronfa Cyfleoedd Newydd sydd wedi arwain at fwy o gydweithredu rhyngom. Tra byddwn yn wynebu mwy o newidiadau yn y dyfodol byddwn, trwy'r Gronfa Loteri Fawr, yn parhau i rannu grantiau sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol a chynaliadwy i fywydau pobl ddifreintiedig ledled Gogledd Iwerddon.

Adran 3

Gogledd Ddwyrain Lloegr

Mae Gogledd Ddwyrain Lloegr yn gymysgedd o gymunedau trefol, lled drefol a gwledig gydag ardaloedd mawr o amddifadedd a nifer fawr o ardaloedd sy'n mwynhau adfywiad cyflym. Mae'r sector gwirfoddol a chymunedol yn weithgar iawn gyda nifer fawr o grwpiau cymunedol yn weithredol er bod y drefniadaeth i gynnal y gwaith hwn yn parhau i ddatblygu mewn nifer o ardaloedd.

Er mwyn ein cynorthwyo i gynyddu ein pwyslais ar bobl mewn angen, mae ein cynllun strategol yn nodi nifer o grwpiau blaenoriaeth. Rydym wedi sefydlu pedwar grwp cyfeirio o blith y rhai sydd wedi derbyn grantiau, rhanddeiliaid allweddol eraill ac aelodau o'r gymuned i gefnogi hyn. Eleni rydym wedi cefnogi ac annog tri o'r grwpiau hyn – pobl hŷn, pobl anabl a'u gofalwyr a phobl ifanc – i gynnal digwyddiadau i rannu arferion da a dathlu'r grantiau yr ydym wedi eu dyfarnu i wahanol fudiadau. Rydym wedi cynhyrchu cyhoeddiadau sy'n dangos enghreifftiau o arferion da ac awgrymiadau ar sut i redeg prosiectau da.

Mae'r pedwerydd grwp wedi cael ei ddefnyddio i annog ceisiadau gan grwpiau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig. Mae nifer y ceisiadau yr ydym yn eu derbyn gan y grwp hwn yn gymharol isel ac mae cyfradd llwyddiant eu ceisiadau hefyd yn isel. ydym wedi cynnal dau weithdy i helpu grwpiau o gymunedau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig i ddatblygu ceisiadau ac yn ddiweddar cawsom dri chais llwyddiannus i'r rhaglen grantiau canolig gan grwpiau a oedd wedi mynychu'r sesiynau hyn.

Gyda blwyddyn i fynd rydym eisoes wedi cwrdd â'n targed nawdd cyfran deg yn Stockton a Darlington. Er mwyn sicrhau bod y momentwm a grëwyd yn parhau ac i annog sector mwy cynaliadwy rydym yn bwriadu parhau i dargedu gwaith allgymorth yn yr ardaloedd hyn. Rydym am weithio gydag asiantaethau eraill yn yr ardaloedd hyn i helpu i hybu galluoedd mudiadau llai fel bod cymunedau lleol yn gallu cael gafael ar arian i gwrdd â'u hanghenion penodol eu hunain.

Rydym yn gweld llawer o geisiadau'n cael eu hail gyflwyno yn dilyn ceisiadau aflwyddiannus; gwrthodwyd nifer o'r rhain oherwydd nad oedd arian ar gael i'w cyllido. Rydym yn parhau i ddarparu adborth manwl i helpu mudiadau i wella eu ceisiadau. Rydym hefyd wedi dechrau hysbysu mudiadau a yw prosiectau'n cwrdd â'n blaenoriaethau cyllido rhanbarthol ai peidio. Rydym wedi dechrau defnyddio'r ffurflen cynigion amlinellol i sicrhau ein bod yn rhoi cyngor eglur i brosiectau sy'n annhebygol o dderbyn cyllid. Rydym yn cynnig sesiynau un i un mewn gwahanol leoliadau ledled y rhanbarth ar ffurf cymorthfeydd gyda phrosiectau sy'n cwrdd â'n blaenoriaethau cyllido ond sy'n cael eu gwrthod er hynny.

Gogledd Orllewin Lloegr

Mae Gogledd Orllewin Lloegr yn cynnwys 1007 o wardiau, y rhanbarth fwyaf y tu allan i Lundain. Gan ddefnyddio Mynegai Amlamddifadedd 2000, mae 216 o'r rhain yn cael eu cyfrif ymhlith y 10 y cant o wardiau mwyaf difreintiedig yn Lloegr ac mae traean o wardiau'r Gogledd Orllewin ymhlith yr 20 y cant mwyaf difreintiedig

Un o uchafbwyntiau'r llynedd oedd llwyddo i ragori ar bob un o dargedau ein grwpiau buddiolwyr blaenoriaeth. Cynhaliwyd prosiect peilot dirprwyaeth llwyddiannus – i fudiad allanol, a ddyfarnodd grantiau i grwpiau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig yn Bolton. Mae Action for Employment wedi rhoi 13 o grantiau i grwpiau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig yn ystod y flwyddyn a oedd yn werth £998,239 ac sydd wedi ein helpu i gyrraedd grwpiau mewn ardal lle nad oeddem wedi derbyn ceisiadau o'r blaen

Roedd y grantiau arbennig eraill a ddyfarnwyd yn cynnwys £66,213 i'r Bangladesh Welfare Association i wella sgiliau a siawns aelodau'r gymuned Bangladeshi o gael gwaith; £218,143 i Supported Community Business, i dalu am weithdy therapiwtig lle gall pobl ag anawsterau dysgu gymryd rhan mewn gwaith a dysgu sgiliau ac annibyniaeth; a £151,347 i Halton YMCA ar gyfer canolfan cyngori ac arweiniad i bobl ifanc ddifreintiedig.



Adran 3

Mae ein gwasanaeth cefnogaeth cyn cyflwyno cais wedi bod o fudd mawr i ymgeiswyr yn ystod y flwyddyn. Rydym wedi cynnig cyfarfodydd awr o hyd i grwpiau sydd am gael cyngor ar sut i fwrw ymlaen gyda pharatoi cais. Dim ond 5 y cant o'r grwpiau, a aeth ymlaen i wneud cais, a fethodd â chwrdd â'n meini prawf asesu ac argymhellwyd 63 y cant i'r Pwyllgor Rhanbarthol i dderbyn grant - er na ellir ariannu pob un ohonynt oherwydd y gystadleuaeth am gyllid cyfyngedig.

Rydym yn cyrraedd grwpiau targed ac yn denu ymgeiswyr newydd trwy weithio mewn partneriaeth yn y rhanbarth ac mewn ardaloedd cyfran deg. Rydym wedi ymateb i'r gystadleuaeth gynyddol am ein cyllid trwy sefydlu'r Gwasanaeth Adolygu Prosiectau. Bydd y gwasanaeth hwn yn rhoi cyfle i grwpiau gael gwybod a yw eu prosiect yn debygol o gwrdd â'n polisïau a'n strategaeth gyllideb yn gynnar yn y broses, fel bod modd iddynt benderfynu a ydynt am fwrw ymlaen a chyflwyno cais llawn.

Swydd Efrog a'r Humber

Mae Swydd Efrog a'r Humber yn rhanbarth bywiog ac amrywiol. Mae cyfran uchel o'r rhanbarth yn wledig, gyda chanolfannau trefol mawr a bach. Rydym yn falch o allu ariannu amrywiaeth eang o grwpiau a phrosiectau cymunedol sy'n cyfrannu at wneud y rhanbarth yn lle da i fyw a gweithio ynddi..

Mae ein grantiau wedi ymateb i anghenion y rhanbarth ac maent wedi helpu cymunedau lleol i addasu i'r newidiadau yn eu hamgylchiadau. Enghraifft o hyn fu ein cynllun cyllido ar y cyd yn Ne Swydd Efrog, ardal sy'n gymwys i dderbyn cyllid Ewropeaidd oherwydd ei lefelau uchel o dlodi. Rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid cyllid Ewropeaidd i wneud y broses gyflwyno cais i ddau gyllidwr gwahanol yn haws.



Mae'r cynllun cyllido ar y cyd diweddaraf hwn wedi ein helpu i wneud cynnydd rhagorol tuag at gwrdd â'n targedau cyfran deg. Erbyn diwedd ail flwyddyn y cynllun rydym wedi ariannu prosiectau yn Doncaster, Rotherham, Kirklees ac Wakefield gan gyfrannu £13.1 miliwn - 70% o'n targed tair blynedd. Rydym yn falch o fod wedi gallu cyllido prosiectau cymunedol llai yn yr ardaloedd hyn yn ogystal â phrosiectau sy'n cynnig cefnogaeth i'r sector gwirfoddol a chymunedol i wella eu siawns o sicrhau cyllid yn y dyfodol.

Mae'r Pwyllgor Rhanbarthol yn falch o fod wedi gallu cyllido sawl prosiect eleni gan gynnwys cynlluniau a fydd yn helpu i ddod â chymunedau at ei gilydd. Un enghraifft o'r math hwn o waith yw'r prosiect 'Football Unites, Racism Divides' sydd wedi ei leoli yn Sheffield, ac sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a chysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau hiliol trwy gyfrwng pêl-droed. Bydd ein harian yn cefnogi datblygiad eu gwaith gyda phobl ifanc, gyda'r nod o leihau nifer yr ymosodiadau hiliol yn yr ardal a gwella cysylltiadau cymunedol.

Mae'r Pwyllgor Rhanbarthol yn awyddus bob amser i helpu mudiadau sy'n cael eu harwain gan y bobl sy'n defnyddio ac yn elwa ar y gwasanaeth - eleni rydym wedi rhoi grant i Bradford People First, prosiect eiriolaeth i bobl ag anawsterau dysgu, a fydd yn eu helpu i gael llais yn y ffordd y mae'r gwasanaethau a'r cyfleusterau y maent yn eu defnyddio'n cael eu darparu.

Dwyrain Canolbarth Lloegr

Mae Dwyrain Canolbarth Lloegr yn lle cyffrous i fyw ynddo. Mae'r swyddfa ranbarthol yn gweithio'n agos gyda phartneriaid megis yr Asiantaeth Datblygu Rhanbarthol, Swyddfa'r Llywodraeth a'r prif asiantaethau o'r sector gwirfoddol i sicrhau cymunedau diogel, iach a deniadol. Rydym yn cyfrannu at hyn trwy roi grantiau cyffrous i amrywiaeth eang o brosiectau adfywio cymdeithasol ac economaidd.

Rydym wedi cydweithio'n glos gydag Aelodau Seneddol y rhanbarth drwy gydol y flwyddyn trwy friffiadau, cyfarfodydd un i un a chylchlythyrau. Mae'r adborth a gafwyd yn dangos eu bod o'r farn fod y wybodaeth hon yn werthfawr iawn ac mae wedi eu helpu i drosglwyddo gwybodaeth am gyfleon cyllido i'w hetholwyr.

Un dangosydd allweddol o'n llwyddiant eleni yw bod pedair ardal yn y 10 sydd wedi gwella fwyaf yn sgil arian y Loteri yn Nwyrain y Canolbarth – High Peak, Chesterfield a Bolsover yn Swydd Derby a Mansfield yn Swydd Nottingham.

Ein prif grwpiau targed eleni fu cymunedau yn Boston, West Lindsey, Bolsover, Ashfield a hefyd pobl hŷn a chymunedau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig. Rydym yn cyflogi Swyddogion Allgymorth i helpu datblygu prosiectau yn y cymunedau hyn. Rydym hefyd wedi addasu ein proses asesu i gynnig mwy o gefnogaeth i grwpiau blaenoriaeth.

Mae'r cynllun cyfran deg yn parhau i fod yn llwyddiant mawr. Rydym wedi dyblu ein targedau tair blynedd yn y ddwy flynedd gyntaf. Rydym hefyd wedi datblygu cynaliadwyedd tymor hir trwy ddarparu hyfforddiant trylwyr i weithwyr datblygu cymunedol yn ogystal â hwyluso rhwydweithiau a fydd yn parhau i weithio ar ôl i gyfran deg ddod i ben. Mae LAP Ashfield wedi disgrifio ein gwaith fel enghraifft o 'weithio mewn partneriaeth ar ei orau'.

Mae grantiau i gymunedau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig yn parhau i fod yn flaenoriaeth bwysig. Rydym wedi ymdrechu i ddenu ymgeiswyr newydd trwy gyflogi Swyddog Allgymorth sy'n gweithio'n benodol i gynorthwyo cymunedau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig a chydweithio'n agos gydag asiantaethau datblygu fel VOICE East Midlands a'r African Caribbean Development Agency.

Gorllewin Canolbarth Lloegr

Trwy gydol y flwyddyn mae staff Gorllewin Canolbarth Lloegr wedi bod yn cydweithio'n glos a llwyddiannus gyda'r sector gwirfoddol yn y rhanbarth tra'n llwyddo i reoli'r galw am gymorth cyn i fudiadau wneud cais neu yn ystod y cyfnod asesu. Rydym yn darparu gwasanaeth Llinell Gymorth, yn gwneud gwaith allgymorth, ac yn sicrhau bod gennym bresenoldeb mewn nifer o ddigwyddiadau pwysig y sector gwirfoddol ledled y rhanbarth.

Rydym yn parhau i gynnig briffiadau yn ein swyddfa ranbarthol ac yn yr ardaloedd daearyddol hynny sy'n cael blaenoriaeth gennym. Ar ôl derbyn ffurflen gais amlinellol gallwn benderfynu a ydym am gynnig sesiynau un i un i rai grwpiau sy'n cwrdd â'n blaenoriaethau cyllido. Rydym yn awyddus i gynnig cyngor i ymgeiswyr posibl ar sut i wneud eu cais yn un mwy cystadleuol yn yr hinsawdd cyllido sydd ohoni.

Mae'r dull hwn o weithio wedi ein galluogi i gyfleu neges anodd i rai ymgeiswyr posibl eleni o ganlyniad i ostyngiad yn y gyllideb grantiau sydd ar gael i ni. Ar y cyfan, dywed y sector ei fod yn cael ei galonogi gan ein dull cefnogol a defnyddiol o weithio gydag ymgeiswyr posibl.

Gyda'n cydweithwyr o'r Gronfa Cyfleoedd Newydd, rydym wedi meithrin perthynas weithio dda gyda'r rhwydweithiau strategol perthnasol, gan gynnwys Partneriaethau Strategol Lleol, asiantaethau cymorth lleol a Sefydliadau Cymunedol. Mae ein gwaith allgymorth wedi ein galluogi i ddosbarthu £3.1m yn ychwanegol i rai o ardaloedd mwyaf difreintiedig y rhanbarth.

Adran 3

Mae'r Pwyllgor Rhanbarthol wedi gwahodd grwpiau sydd wedi derbyn grantiau yn y gorffennol i'w cyfarfod i drafod y gwahaniaeth y mae hwn wedi ei wneud a sut y gallwn wella ein gwasanaeth. Clywsom hanesion teimladwy gan fuddiolwyr uniongyrchol am y gwahaniaeth y mae ein grantiau wedi ei wneud i'w bywydau. Roedd yr achlysuron hyn ymhlith uchafbwyntiau'r flwyddyn ac yn ein gwneud yn fwy penderfynol nag erioed i gefnogi prosiectau sy'n gweithio i leddfu tlodi ac anfantais a gwella ansawdd bywydau pobl.

Dwyrain Lloegr

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn her i ni ond rhoddodd lawer o foddhad i ni hefyd. Roedd ein cyllideb grant yn llai nag yn y gorffennol ond rydym wedi gwneud y defnydd gorau posibl o'n harian ac rydym yn sicr y bydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl yn y rhanbarth..

Rydym yn gallu ymfalchïo yn y grantiau yr ydyn yn eu dyfarnu ond mae dau yn arbennig sy'n aros yn y cof, sef Opportunities without Limits a West Norfolk Mind – dau brosiect gwahanol iawn ond rhai sy'n cael effaith bendant ar fywydau pobl.

Derbyniodd Opportunities Without Limits grant o £134,462 i greu cyfleon i bobl ag anawsterau dysgu i gael profiad gwaith, galwedigaethol a dysgu mewn cafffi newydd sbon yn Sawston, Swydd Caergrawnt. Cynigir hyfforddiant achredig mewn arlwy yno ynghyd â phrofiad ymarferol o fyd busnes

Derbyniodd West Norfolk Mind £92,003. Bydd y prosiect yn darparu cefnogaeth i alluogi pobl â salwch meddwl i sicrhau a chadw swyddi.

Roedd amrediad y grantiau a ddyfarnwyd yn amrywiol, yn ôl ein harfer. Roedd y galw o blith neuaddau pentref yn llawer mwy na'r gyllideb a oedd ar gael ond yn yr hinsawdd cyllido presennol, roeddem yn sylweddoli y byddai'n rhaid i ni siomi mwy o ymgeiswyr nag y gallem eu helpu. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf felly rydym wedi annog ymgeiswyr ar ran neuaddau pentref i gael gair â ni yn gynnar yn y broses o baratoi eu cais. Rydym yn falch o gyhoeddi ein bod wedi dyfarnu 17 grant i neuaddau pentref, sy'n werth £1,570,054. Rydym yn credu bod y gwaith cyn gwneud cais yr ydym wedi ei wneud gyda chynrychiolwyr neuaddau pentref wedi golygu bod yr ymgeiswyr yn gallu gwneud dewisiadau mwy goleuedig.

Mae'r ddau gynllun sydd ar y gweill gennym ar hyn o bryd yn targedu cyllid at ardaloedd na lwyddodd i fanteisio ar arian y Loteri yn y gorffennol wedi bod yn llwyddiant. Mae'r cynllun Cymunedau Cefn Gwlad yn cynnwys ardal y Fenland, Gogledd Norfolk a Kings Lynn a Gorllewin Norfolk – fel rhan o'r cynllun hwn rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yng nghyfran y cyllid sy'n mynd i'r ardaloedd gwledig hyn. Mae ein rhaglen cyfran deg wedi cyrraedd ei blwyddyn olaf ac rydym yn gobeithio y bydd y grantiau yr ydym wedi eu dyfarnu yn Luton, Basildon a Waveney yn cael effaith hir dymor ac yn meithrin gallu'r sector gwirfoddol yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r swyddfa ranbarthol hefyd wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Celfyddydau Lloegr a Sport England ar brosiect pilot 18 mis sy'n cael ei ariannu ar y cyd gan y Rhaglen Canolfannau Bro. Yn 2003/04 dyfarnwyd 24 o grantiau gwerth cyfanswm o £1 miliwn.



Llundain

Mae Llundain yn ddinas eithriadol o amrywiol gyda chymunedau gweithgar a sector gwirfoddol mawr. Er mai hi yw'r ddinas gyfoethocaf ym Mhrydain, mae rhai o'i bwrdeistrefi yn cynnwys pocedi gyda'r lefelau uchaf o amddifadedd yn y DU. Daw tua thraean poblogaeth Llundain o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys llawer o grwpiau o ffoaduriaid sydd wedi ymsefydlu yn o'n ddiweddar. Mewn dinas gyda phoblogaeth ifanc, mae'n hawdd iawn diystyru pobl hŷn, ond eto maent yn gallu byw mewn amgylchiadau bregus, yn enwedig os ydynt yn byw yn y rhannau tlotaf o ganol y ddinas.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf bu swyddfa Llundain yn targedu mudiadau sy'n gweithio gyda phobl hŷn, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, ac yn ymdrechu i ddarparu cefnogaeth i gryfhau rheolaeth grwpiau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig. Mae'r gyfran o'n cyllideb a werir yn y meysydd hyn wedi codi o ganlyniad, a grwpiau sy'n gweithio gyda phobl h_n fu fwyaf llwyddiannus.

Yn ystod y 18 mis diwethaf rydym wedi bod yn rhedeg prosiect arbennig sy'n darparu cefnogaeth ychwanegol i rai o'n deiliaid grant lleiaf o gymunedau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig. Rydym wedi dysgu llawer am y pwysau sydd ar grwpiau bach a rhai o'r anawsterau y maent yn eu hwynebu wrth geisio cael gafael ar arian a rheoli grantiau. O ganlyniad i'r gwaith hwn rydym yn bwriadu rhoi grantiau i ddwy asiantaeth i'w galluogi i gynnig cefnogaeth i ddeiliaid ein grantiau yn y dyfodol. Rydym yn credu y bydd hyn yn cryfhau trefniadau rheoli'r grwpiau er mwyn eu galluogi i ddarparu gwasanaethau gwell i'w cwsmeriaid.

Rydym hefyd wedi cyflwyno blaenoriaeth newydd, 'Linking Communities'. Roeddem am ymateb i'r pryderon ynghylch y darnio cymdeithasol sy'n digwydd mewn dinasoedd fel Llundain, gan annog prosiectau sy'n mynd i'r afael ag anhrefn cymdeithasol trwy ddod â chymunedau at ei gilydd. Rydym wedi defnyddio proses newydd cyn gwneud cais i'n galluogi i roi adborth cyflym i grwpiau i'w hysbysu a yw eu syniad yn cyd-fynd â gofynion y rhaglen hon, ac os yw, i gefnogi eu cais fel bod gan grwpiau well siawns o gael grant. Mae'r grwpiau wedi croesawu'r datblygiad hwn ac rydym yn edrych ymlaen at ddyrannu grantiau cyffrous yn ystod y flwyddyn nesaf.

De Ddwyrain Lloegr

Y De Ddwyrain yw'r mwyaf o ranbarthau Lloegr ac mae'n profi un o'r cyfraddau twf mwyaf mewn poblogaeth.

Er gwaethaf y problemau tai a thrafnidiaeth, mae naw o bob deg preswlydd yn fodlon gydag ansawdd bywyd yn y De Ddwyrain, yn ôl pŵl piniwn diweddar a gynhaliwyd gan MORI. Ond ni allwn orffwys ar ein rhwyfau. Y ddwy broblem fwyaf sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd yw'r dirywiad mewn twristiaeth ac effeithiau hynny mewn nifer o drefi'r arfordir a lefelau diweithdra yn Nwyrain Caint ac ar arfordir y De

Her fawr i ni eleni oedd y galw diddiweddedd bron am ein grantiau. Mae targedu effeithiol a chyfathrebu da wedi helpu ymgeiswyr posibl i ddeall ein polisïau a'n gweithdrefnau'n well nag erioed, sy'n golygu eu bod yn meddu ar ddigon o wybodaeth i benderfynu a ydynt am gyflwyno cais ai peidio.

Dangosodd cyfres o ffilmiau ar y rhaglen newyddion Meridian Tonight ba effaith y gallai prosiectau cymunedol ei gael ar bobl leol.

Adran 3

Dangosodd y ffilmiau i gynulleidfa fawr sut y gall arian y Loteri wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl. Bu'r Gronfa Gymunedol a Meridian Broadcasting yn gweithio gyda'i gilydd yn ardal Caint a Dwyrain Sussex i dynnu sylw at rai o'r prosiectau llwyddiannus sydd wedi eu datblygu. Adroddwyd hanes Tip, sy'n gallu ymfalchio yn ei gartref ac sydd wedi gweithio'n galed i addurno a dodrefnu ei fflat yng Nghaergaint. Ddwy flynedd yn ôl roedd yn ddigartref ac yn byw ar y stryd. Bu Tip yn ddigon ffodus i gael help East Kent Cyrenians (a dderbyniodd £100,000 yn 2000) i weddnewid ei fywyd. Maent yn gweithio'n uniongyrchol gyda phobl sy'n ddigartref ac yn byw ar y stryd ac mae eu gwaith wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y bobl sy'n cysgu allan ar y stryd yn ardal Caergaint, gan ragori ar dargedau'r Llywodraeth.

Trwy godi ymwybyddiaeth o'r Gronfa Gymunedol yn sgil y prosiect Cashback ein gobaith oedd denu grwpiau nad oedd wedi ystyried gwneud cais am arian y Loteri yn y gorffennol. Gwnaethpwyd bron i 1,000 o alwadau ffôn dros gyfnod o chwe mis ac mae grwpiau nad oedd wedi ystyried y peth o'r blaen yn awr yn gwneud cais am arian y Loteri.

De Orllewin Lloegr

Mae ein gwaith yn y De Dwyrain yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r gwrthgyferbyniadau trawiadol sydd i'w gweld o safbwynt anghenion rhanbarth sydd â'r twf poblogaeth cyflymaf a'r gyfran uchaf o bobl hŷn yn y DU. Mae'r rhanbarth yn denu'r gweithlu gyda'r cymwysterau gorau y tu allan i Lundain a'r De Dwyrain, tra bod y cyfuniad o incymau is a chostau tai uchel yn gorfodi llawer o bobl ifanc i adael eu cymunedau.

Rydym yn arbennig o falch bod ein gwaith datblygu wedi dechrau denu ceisiadau o safon uchel ar gyfer prosiectau sy'n helpu pobl hŷn a chymunedau lleiafrif ethnig, sy'n cyfrif am 21% a 2.3% o boblogaeth y rhanbarth yn y drefn honno.

Er enghraifft, mae mudiadau o'r gymuned pobl ddu ym Mryste wedi gweld angen am gefnogaeth i ddatblygu a gwella eu gwasanaethau cynghori. Mae ein grant o £190,132 i'r Bristol Resource Centre yn golygu bod nifer o asiantaethau sy'n gweithio gyda'i gilydd yn gallu darparu gwasanaethau cyngor budd-daliadau a chyngor cyfreithiol sydd o fewn cyrraedd cymunedau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig.

Yn yr un modd, mae Age Concern yng Nghernyw wedi eu llethu gan y galw o blith grwpiau mewn ardaloedd anghysbell. Mae ein grant o £47,270 wedi eu galluogi i ddatblygu rhwydwaith o grwpiau pobl hŷn a all gael llais yn y ffordd y mae gwasanaethau lleol yn cael eu cynllunio. Aeth buddsoddiad cymharol fach yn bell iawn tuag at helpu'r mathau o grwpiau na fyddwn fel arfer yn gallu eu cyrraedd.

Rydym wedi cynyddu nifer y grantiau sy'n cyrraedd ardaloedd mwy difreintiedig y rhanbarth, gan gynnwys ein hardaloedd cyfran deg.

Rydym bob amser yn derbyn nifer fawr o geisiadau o safon uchel gan grwpiau sy'n gweithio gyda phobl anabl, gan gynnwys pobl ag anabledau dysgu. Roedd y rhain yn cyfrif am bron i draean o'n gwariant. Eleni mae'r pwyllgor rhanbarthol wedi croesawu ceisiadau i helpu pobl sy'n profi anawsterau iechyd meddwl.

O gofio'r niferoedd mawr o geisiadau sy'n arfer cael eu cyflwyno yn y rhanbarth, rydym yn llawn sylweddoli'r siomedigaeth sy'n ganlyniad i'r gostyngiad mewn cyllidebau. Mae felly wedi bod yn braf gweld y gwasanaeth darparu cyngor cyn cyflwyno cais a gwaith caled arall yn arwain at welliant yng nghyfradd llwyddiant y ceisiadau o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 26% i 32%. Rydym yn gobeithio y gallwn wella ar y llwyddiant hwn eto yn ystod y flwyddyn nesaf.

Cyfran Deg

Yn Ebrill 2002 lansiodd y Gronfa Gymunedol cyfran deg, ar y cyd gyda'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Datblygwyd y cynllun hwn er mwyn ei gwneud yn haws i gymunedau difreintiedig o fewn ardal 77 o awdurdodau lleol ledled y DU gael gafael ar gyllid, nad oedd ar y pryd wedi derbyn eu cyfran deg o arian y Loteri. Roedd gweithgarwch y Gronfa Gymunedol yn canolbwyntio ar 37 o'r ardaloedd hyn.

Ers ei lansio, rydym wedi dosbarthu dros £61,503,784 i'r ardaloedd hyn. Erbyn diwedd yr ail flwyddyn o dair, roeddem wedi cyflawni 67 y cant o'n targed ariannol. Rydym yn credu mai'r hyn sy'n allweddol i barhad ein llwyddiant yw bod yn agored, cyraeddadwy ac 'wrth law' a gweithredu dull datblygu cymunedol o weithredu sy'n gweithio gyda ac ar ran cymunedau lleol.

Mae dull o'r fath yn sicrhau bod cyfran deg yn golygu mwy na grantiau yn unig. Rydym wedi helpu i feithrin galluoedd mewn meysydd heblaw dyrannu grantiau. Mae ein staff allgymorth wedi bod yn cynnig cefnogaeth un i un i grwpiau sydd am gael grant ac mae Hyfforddiant i Ymgynghorwyr Cyllid yn cael ei gynnis i weithwyr cymunedol gan mai gweithwyr lleol sydd yn y sefyllfa orau i gynnis cyngor i grwpiau lleol. Hefyd, rydym wedi hwyluso cyfarfodydd gyda chyllidwyr eraill i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac i agor drysau at gyllid o ffynonellau eraill.

Mae'r mentrau newydd ac arloesol hyn sy'n galluogi dyrannu grant i weithredu cyfran deg bellach yn cael eu gwerthuso ar lefel genedlaethol. Y bwriad yw y bydd y gwerthusiad o'n gwaith yn sail i arferion gorau ar gyfer ein trefniadau dyrannu grantiau yn y dyfodol. Gan fod ein gwaith targedu'n dod i ben ym Mawrth 2005, ein nod am y drydedd flwyddyn yw dysgu o'r hyn yr ydym wedi ei wneud a sicrhau fod y gwaith yn cael effaith pellgyrhaeddol a pharhaol.

Cymunedau Cefn Gwlad

Er ein bod fel arfer yn cysylltu amddifadedd cymdeithasol a thlodi â stadau tai mawr yng nghanol dinasoedd yn bennaf, y gwir yw eu bod yn broblem yng nghefn gwlad hefyd. Mae un o bob pedwar person sy'n byw yng nghefn gwlad yn byw mewn tldi. Trwy Gymunedau Cefn Gwlad, rydym yn ymdrechu i ddatblygu galluoedd a chyfalaf cymdeithasol mewn cymunedau gwledig a chefnogi prosiectau arloesol sy'n gwella ansawdd eu bywyd.

Mae Cymunedau Cefn Gwlad yn fenter ar y cyd rhwng y Gronfa Gymunedol a'r Asiantaeth Cefn Gwlad. Ei nod yw sicrhau bod ardaloedd gwledig Lloegr yn derbyn eu 'cyfran deg' o grantiau. Mae Cymunedau Cefn Gwlad yn ddatblygiad sy'n deillio o raglen y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol, cyfran deg.

Rydym wedi dewis wyth ardal sydd i elwa ar Gymunedau Cefn Gwlad, ac mae'r rhain wedi eu dewis ar sail mynegeion amddifadedd a lefelau isel o gyllid y Gronfa Gymunedol. Yr ardaloedd hyn yw Shepway a Dover yng Nghaint; King's Lynn a Gorllewin Norfolk; Gogledd Norfolk; Fenland yn Swydd Caergrawnt; Boston a West Lindsey yn Swydd Lincoln a Sedgemoor yng Ngwlad yr Haf.

Sefydlwyd Cymunedau Cefn Gwlad fel rhaglen bum mlynedd ac mae'r cychwyn cymharol araf mewn rhai o'r ardaloedd wedi dangos pam bod yn hyn yn angenrheidiol. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, mae trefniadaeth y sector gwirfoddol yn wan, ac yn aml mae gwahanol grwpiau yn gweithio heb unrhyw gysylltiad â'i gilydd. Daeth yn amlwg pam nad yw'r ardaloedd hyn wedi medru manteisio ar gyllid yn y gorffennol.

Adran 3

Fel yn ardaloedd cyfran deg y Gronfa Gymunedol, mae gweithwyr allgymorth wedi'u penodi i weithio gyda chymunedau lleol. Yn ogystal â darparu cefnogaeth un i un i ymgeiswyr posibl, maent hefyd wedi chwarae rhan flaenllaw mewn ffurfio partneriaethau gyda chyllidwyr eraill i helpu sicrhau prosiectau mwy llwyddiannus a chynaliadwy.

Yn Boston, Swydd Lincoln, mae'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth leol wedi gweld bod nifer fawr o bobl yn yr ardal nad oedd yn ymwybodol nac yn derbyn y budd-daliadau yr oedd ganddynt hawl iddynt. Dyfarnwyd £173,000 iddynt i gyflogi gweithwyr achos i godi ymwybyddiaeth o fudd-daliadau a helpu pobl i wneud cais amdanynt.

Bydd yr elfen grant strategol o Cymunedau Cefn Gwlad, sy'n werth £2.2 miliwn, yn cael ei weithredu mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Carnegie yn y DU, Rydym yn gobeithio lansio'r rhaglen hon ar y cyd ym mis Hydref 2004.

Arian i Bawb Lloegr

Mae Arian i Bawb yn dosbarthu grantiau rhwng £500 a £5,000 i grwpiau bach lleol i'w galluogi i sefydlu gweithgareddau newydd neu ehangu eu gwaith. Daw ein harian oddi wrth y pum prif ddosbarthwr Loteri yn Lloegr, gan gynnwys £9,947,515 oddi wrth y Gronfa Gymunedol yn 2003/04.

Yn y pum mlynedd ers sefydlu'r cynllun, rydym wedi dosbarthu dros £175 miliwn, a dyfarnwyd ein 50,000ed grant yn ystod mis Tachwedd y llynedd. Aeth y grant hwnnw i brosiect cerddoriaeth plant yn rhanbarth y Dwyrain ac roedd wedi ei anelu at blant teuluoedd ar incwm isel.

Mae ein grantiau'n cefnogi amrywiaeth eang o brosiectau – sy'n ymwneud â threftadaeth, y celfyddydau, y gymuned, chwaraeon, yr amgylchedd, addysg ac iechyd. Ein nod yw gwella ansawdd bywyd mewn cymunedau, gwella mynediad a chynyddu cyfranogaeth, a gwella sgiliau a chreadigedd. Er enghraifft, mae grant o £4,259 i Valley Supported Living yn golygu bod y grwp newydd hwn yn gallu cynnig cyngor a chefnogaeth i rieni a gofalwyr pobl ag anableddau dysgu – i wella eu cyfle i fyw'n annibynnol. Mae £1,400 yn golygu bod Ysgol Kinson a Village Memories yn gallu ehangu eu prosiect atgofion, gan fedru mynd â'r prosiect at gyfranogwyr newydd mewn cartrefi henoed..

Mae Arian i Bawb yn ymdrechu i fod yn rhaglen grant ymatebol sy'n hysbysu ymgeiswyr o'u penderfyniad mewn amser byr. Y llynedd, cyflwynwyd gweithdrefnau newydd a oedd yn golygu bod yr amser a gymer i ddod i benderfyniad ar gais gyn lleied ag wyth wythnos.

Bu ein timau rhanbarthol yn ymgynghori ac yn diweddarau eu pwyslais rhanbarthol yn ystod y llynedd. Mae'r pwyslais hwn yn ein helpu i wneud y penderfyniad ar grantiau sydd fwyaf priodol i ardal benodol. Mae manylion ar gael ar ein gwefan: www.awardsforall.org.uk

Rydym yn sylweddoli y bydd rhagor o newidiadau a chyfleon yn dod i ran Arian i Bawb y flwyddyn nesaf, ac edrychwn ymlaen at arloesi ymhellach er mwyn sicrhau bod arian y Loteri yn cyrraedd calon y cymunedau lleol.



Adran 4

Cynllunio ar gyfer y dosbarthwr newydd

Cytunodd yr Ysgrifennydd Gwladol y dylid penodi un Bwrdd cyd-derfynol i oruchwylio gwaith y sefydliad gweinyddol unedig o Fehefin 2004 ymlaen. Cyhoeddwyd hysbysebion ar gyfer aelodau'r Bwrdd yn gynnar yn 2004.

Cychwynnodd y broses o greu strwythur rheoli unedig gyda phenodiad Stephen Dunmore fel Prif Weithredwr y ddwy Gronfa ar 1 Rhagfyr 2003. Datblygwyd strwythur Tîm Uwch Reolwyr ar y cyd a llenwyd y swyddi yn gynnar yn 2004. Mae'r Tîm Uwch Reolwyr yn awr yn arwain gwaith y ddau sefydliad, gan fwrw ymlaen â'r broses o'u huno.

Dechreuodd tîm cynllunio sy'n cynnwys staff o'r ddwy Gronfa ar eu gwaith yng Ngorffennaf 2003 i lunio cynllun ar gyfer 2004/5, a oedd yn cynnwys amcanion corfforaethol, mesurau perfformiad allweddol ac ategol. Cytunodd Cydbwyllgor y ddau Fwrdd ar y ddogfen hon ym mis Mawrth 2004. Yn seiliedig ar yr amcanion corfforaethol hyn, mae amcanion lefel cyfarwyddeb fwy manwl wedi eu llunio i fod yn sail i'r strwythur sylfaenol ar gyfer y gwaith yn ystod 2004/5.

Yn ystod y flwyddyn gwnaethpwyd llawer o waith cysylltiadau mewnol i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r broses gynllunio a'u bod yn gallu cyfrannu ati. Mae cyfres o friffiadau wyneb yn wyneb wedi eu cynnal ym mhob un o'r swyddfeydd ledled y DU ac mae bwletinâu gwybodaeth rheolaidd yn cael eu dosbarthu i bob aelod o staff.

Sefydlwyd dau Grwp Trosiannol a oedd yn cynnwys uwch aelodau staff y ddau sefydliad i barhau â'r gwaith ar Bolisiau a Rhaglenni, a Gwasanaethau Corfforaethol. Roedd hyn yn golygu bod modd gwneud llawer o waith cynllunio manwl, a bydd cyfres o bapurau'n cael eu cyflwyno gerbron y Bwrdd newydd cyn hir.

Mae'r cynlluniau ar gyfer cymhathu staff o'r ddwy Gronfa i greu strwythur staffio newydd eisoes ar waith.

Cytunwyd ar Bolisi Newid Staff gyda'r ddau undeb llafur, Amicus a Prospect, a chynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau briffio ledled y DU. Bydd y gwaith o weithredu'r polisi yn digwydd yn ystod blwyddyn ariannol 2004/ 2005.

Adran 5 Gofal Cwsmer

Mae'r Gronfa Gymunedol wedi ymrwymo i wrando ar ei chwsmeriaid ac rydym yn croesawu unrhyw ymateb i'n gwasanaethau. Er ein bod wrth ein bodd yn clywed bod yr hyn yr ydym yn ei wneud yn plesio, mae'n bwysig i ni ddeall os oes unrhyw beth yr ydym yn ei wneud yn anghywir a dyna pan yr ydym yn cymryd pob cwyn yn erbyn ein gwasanaeth o ddifrif.

Roedd mwyafrif llethol y materion a godwyd gan ein cwsmeriaid yn gwynion yn deillio o benderfyniadau ynghylch grantiau yn hytrach na chwynion ffurfiol. Yn yr achosion hyn mae llythyr pellach o eglurhad yn cael ei anfon at y cwsmer, ac ar rai achlysuron trefnir cyfarfod i drafod y mater ymhellach.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi cyflwyno system newydd i gategoreiddio materion sy'n cael eu codi gan gwsmeriaid, a bydd hyn yn ein galluogi i weld materion cyffredin neu dueddiadau sy'n datblygu.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda dosbarthwyr eraill y Loteri i gyflwyno proses gwyno gyffredin ynghyd â siarter cwsmer fel bod yr un safon o wasanaeth yn cael ei ddarparu gan bob un o'r dosbarthwyr. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda'r Gronfa Cyfleoedd Newydd i sicrhau bod safonau uchel y ddau sefydliad yn cael eu cynnal yn y Gronfa Loteri Fawr. Hyd yma mae set newydd o safonau ffôn wedi cael eu datblygu ac mae gwaith yn cychwyn ar integreiddio arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid.

Mae Clive Wilson, Arolygwr Cwynion Annibynnol y ddwy Gronfa, wedi cael ei gadw fel yr Arolygwr Cwynion Annibynnol ar gyfer y corff newydd, unedig yn 2004/05, cyn y gwneir trefniadau cyffredin ar draws pob un o ddosbarthwyr arian y Loteri yn Lloegr a'r DU

Yn ei adroddiad ar y dudalen nesaf, mae'r Arolygwr Cwynion Annibynnol yn cyfeirio at yr angen i gyhoeddi gwybodaeth am nifer y cwynion a dderbynnir a'r canlyniadau.

Cyflwynodd y Gronfa Gymunedol system i fonitro cwynion yn Ebrill 2003. Mae crynodeb o'r cwynion a dderbynnir yn cael ei anfon at yr uwch reolwyr ac mae hwn wedyn yn sail i ystyried gwelliannau i'r ffordd y mae'r busnes yn cael ei weinyddu. Ar hyn o bryd, oherwydd yr uniad, mae ein hymdrechion yn canolbwyntio ar sicrhau bod trefniadau'n barod yn y Gronfa Loteri Fawr i adrodd yn ôl ar nifer a natur y cwynion a dderbyniwyd, ynghyd â manylion am yr ymateb iddynt ac unrhyw newidiadau a gynigiwyd ac a wnaethpwyd i'n prosesau o ganlyniad. Bydd hyn yn cynnwys adroddiad blynyddol ar ôl 2005 am y nifer a dderbyniwyd a'r canlyniadau.

Yn olaf, mae llawer o waith wedi'i wneud i sicrhau ein bod mewn sefyllfa i ymateb pan ddaw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i rym yn Ionawr 2005. Mae staff yn cael eu hyfforddi ac mae ein dull o reoli cofnodion yn cael ei adolygu i'n galluogi i ymateb i geisiadau yn effeithiol a phrydlon.

Adran 5

Arolygwr Cwynion Annibynnol – adroddiad blynyddol

Un gwyn yn unig a arolygwyd gennyf eleni. Roedd yn ymwneud â grant a dynnwyd yn ôl ar ddiwedd ail flwyddyn prosiect tair blynedd a swm sylweddol a hawliwyd yn ôl oddi wrth dderbyniwr grant. Roedd y grant hwn wedi ei fwriadu ar gyfer gwerthusiad o wasanaeth newydd i ferched Asiaidd a oedd yn defnyddio gwasanaethau mamolaeth y GIG. Dyfarnwyd y grant i fudiad gwirfoddol a oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth ond adran ymchwil prifysgol oedd yn gyfrifol am y gwerthusiad o dan drefniadau a wnaethpwyd rhyngddi a'r mudiad gwirfoddol. Roedd y grant, i bob pwrpas, wedi ei roi i dalu costau'r brifysgol ac nid costau'r gwasanaeth. Felly roedd effeithiau ariannol penderfyniad y Gronfa yn effeithio ar y brifysgol..

Gwnaethpwyd y gwyn gan y brifysgol, nid y mudiad a dderbyniodd y grant. Roedd yn cynnwys manylion am nifer fawr o bryderon yn ymwneud â'r ffordd yr oedd y Gronfa'n rheoli'r grant a'i hymchwiliad a arweiniodd at y penderfyniad i dynnu'r grant yn ôl, a thegwch y penderfyniad ei hun. Ni chafwyd ymateb gan y Gronfa i'r materion penodol ond cynigiodd daliad i setlo'r mater, gan gydnabod bod yr ymchwiliad wedi cymryd gormod o amser. Ni dderbyniwyd y cynnig gan y brifysgol a chyfeiriwyd y gwyn ataf i.

Deuthum i'r casgliad fod gan y Gronfa sail dros benderfynu bod derbyniwr y grant wedi torri amodau'r grant a thros benderfynu tynnu'r grant yn ôl (nid fy lle i yw gwneud unrhyw sylw ar rinweddau penderfyniadau o'r fath). Fodd bynnag, penderfynais hefyd fod y Gronfa wedi camreoli'r grant mewn sawl ffordd a'i bod a bod bai difrifol arni am beidio cyfarfod y ddwy ochr yn ystod yr ymchwiliad, yn enwedig gan fod cais am gyfarfod wedi ei wneud. Pe bai'r Gronfa wedi glynu'n gaeth at ei gweithdrefnau, byddai wedi medru ymateb yn llawer cynt i'r problemau a gododd gyda'r prosiect. Argymhellaf fod y Gronfa'n ailystyried ei chynnig yng ngoleuni fy nghanfyddiadau. Rwyf hefyd wedi gwneud rhai argymhellion cyffredinol..

Derbyniodd y Gronfa fy nghanfyddiadau a fy holl argymhellion ond un. Cynyddodd ei chynnig i'r brifysgol (ond nid oedd y cynnig wedi ei dderbyn ar adeg cwblhau'r adroddiad hwn).

Tynnodd y gwyn sylw at rai materion cyffredinol sy'n ymwneud â rheoli grantiau ar gyfer ymchwil a wneir gan gyrff eraill heblaw derbyniwr y grant. Rwyf yn fodlon bod y Gronfa bellach wedi gwella ei gweithdrefnau i ddelio â grantiau o'r fath, gan gadw'r gwyn hon ac achosion eraill mewn cof.

Gall y ffaith mai dim ond un gwyn yr wyf wedi ei derbyn fod yn arwydd fod achwynwyr at ei gilydd yn hapus gyda'r ffordd y mae'r Gronfa wedi delio â'u pryderon. Ond ni allaf fod yn sicr o hyn. Rwyf wedi gofyn ers sawl blwyddyn bellach i'r Gronfa gyhoeddi gwybodaeth am nifer y cwynion y mae'n delio â hwy a faint sy'n cael eu cadarnhau neu eu gwrthod. Gobeithiaf y bydd y gwelliannau i wasanaethau'r cwsmer y cyfeiriwyd atynt yn Adroddiad Blynyddol y Gronfa Gymunedol y llynedd yn ei galluogi i gyhoeddi gwybodaeth berthnasol eleni.

Clive Wilson, Arolygwr Cwynion Annibynnol

Adran 6 Cydraddoldeb

Un peth yw hyrwyddo cyfle cyfartal; ond mae cyflawni cydraddoldeb mewn canlyniadau yn fwy fyth o her. Eleni rydym wedi neilltuo llawer o ymdrech i wella profiadau'r bobl sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan anghydraddoldeb. Rydym wedi cyflawni hyn trwy ein Strategaeth Prif Ffrydio. Nod prif ffrydio cydraddoldeb yw sicrhau bod sylwadau a phrofiadau pobl sydd wedi cael eu heithrio o gymdeithas yn y gorffennol yn ganolog i'n busnes.

Elfen hollbwysig o'n Strategaeth Prif Ffrydio fu dull i ofalu bod sicrwydd cydraddoldeb yn elfen ganolog o'n polisïau ac arferion. Defnyddiwyd y dull hwn i ddylanwadu ar newidiadau allweddol yn y ffordd yr ydym yn dyrannu grantiau yn ogystal â datblygiadau yn y ffordd yr ydym yn cefnogi a rheoli ein staff. Mae hefyd wedi ein galluogi i gydymffurfio â Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000.

Rydym hefyd wedi gweld cynnydd rhagorol yn ein hymdrech i gwrdd â'n gofynion cyfreithiol o dan Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998. Eleni cwblhawyd dau Asesiad o Effaith Cydraddoldeb ar bolisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â chynnig am grantiau, yn ogystal â'r rhaglen grantiau Arian i Bawb yng Ngogledd Iwerddon. Dangosodd yr asesiadau hyn bod ein dull presennol o ddyrannu grantiau eisoes yn hybu cydraddoldeb mewn sawl ffordd.

Yn unol â gofynion deddfwriaethol ac arferion da rydym wedi parhau i fonitro a dadansoddi profiadau gwaith unigolion o safbwynt eu hethnigrwydd, rhyw, anabledd, statws, oed a chefnidir cymunedol (Gogledd Iwerddon yn unig). Pan yn briodol rydym wedi cymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw agwedd sy'n achos pryder. Cymerwyd camau positif hefyd i ymateb i anghenion ein staff a chwsmeriaid anabl. Rydym wedi cyflwyno rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o anabledd ac rydym yn awr yn ddeiliaid nod ansawdd y Disability Symbol (two-ticks – positive about disability).


Rydym eisoes wedi cychwyn ar waith cydraddoldeb ar y cyd gyda'n cydweithwyr yn y Gronfa Cyfleoedd Newydd ac rydym yn edrych ymlaen at adeiladu ar ein llwyddiannau a gyflawnwyd hyd yma yn y Gronfa Loteri Fawr.

Adran 6

Hyrwyddo Cydraddoldeb fel Cyflogwr

Yn unol â gofynion Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000, mae'r prif ganfyddiadau a'r chamau y bwriedir eu cymryd ar sail data cyflogaeth a gasglwyd yn ystod y cyfnod Ebrill 2003 – Mawrth 2004 wedi eu cyflwyno isod.

Proffil ethnig y Gronfa Gymunedol



Mae'r canlyniadau'n dangos bod gweithlu'r Gronfa Gymunedol yn un amrywiol o safbwynt ei ethnigrwydd.

Cymhariaeth â'r adroddiad diwethaf:

Mae proffil ethnigrwydd y staff yn debyg i un y llynedd. Mae cyfran y staff BME (pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig) wedi parhau i godi, sy'n duedd bositif.

Canfyddiadau allweddol eraill: staff sy'n gadael y Gronfa Gymunedol

Mae proffil ethnig y staff sydd wedi gadael y Gronfa Gymunedol yn y flwyddyn ddiwethaf yn cyfateb yn union i broffil ethnig y staff yn y sefydliad.

Dangosodd adroddiad y llynedd bod cyfran y bobl BME sy'n gadael, ac yn enwedig pobl ddu a oedd yn gadael, fymryn yn fwy na chyfran y staff BME yn y gweithlu. Yn achos data eleni gellir gweld nad yw hyn bellach yn wir.

Adran 7

Cofrestr o Ddiddordebau

Cynllun Iaith Gymraeg

Yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 rydym wedi cyhoeddi Cynllun Iaith Gymraeg, a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, sy'n dangos sut yr ydym yn darparu gwasanaeth cyfartal i siaradwyr Cymraeg a Saesneg. Rydym yn cydnabod bod galluogi pobl i gysylltu â'r sefydliad trwy'r iaith o'u dewis yn fater o gydraddoldeb cyfle ac arfer da.

Mae staff yn Swyddfa Cymru yn monitro'r ffordd y mae'r Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei weithredu ac mae Cyfarwyddwr Cymru'n cyflwyno adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar ein perfformiad yn erbyn targedau a gyhoeddwyd. Roedd y canlynol ymhlith prif gyflawniadau 2003/04:

- Canmolwyd gwefan y Gronfa Gymunedol mewn adroddiad ar wefannau dwyieithog a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg am arddangos arfer da;
- Cafodd ceisiadau yn y Gymraeg eu hasesu a'u monitro gan Swyddogion Grant dwyieithog i sicrhau cydraddoldeb yn y broses dyrannu grantiau;
- Cafodd deunydd ychwanegol yn ymwneud â grantiau a ddyfernir yng Nghymru ei gyhoeddi'n ddwyieithog ar ein gwefan i wella'r gwasanaeth i ddefnyddwyr; ac
- Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ynglŷn â'n darpariaeth yn y Gymraeg.

Mae staff y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn y broses o ddatblygu Cynllun Iaith Gymraeg newydd ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr a fydd yn adeiladu ar gryfderau a'r profiadau a ddysgwyd yn sgil y Cynlluniau Iaith Gymraeg blaenorol.

Mae'n ofynnol i bob un o aelodau Bwrdd a phwyllgor y Gronfa Gymunedol, ynghyd â'i staff, aseswyr ac aelodau panelau ymgynghorol i ddatgan unrhyw ddiddordebau perthnasol yn unol â'n Cod Moeseg. Mae'r gofrestr o ddiddordebau a ddatganwyd a'r datganiadau lletygarwch ar gael i'r cyhoedd eu gweld trwy ysgrifennu at Y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol.

Tryloywder ac atebolrwydd

Rydym yn dod o fewn gweithdrefnau'r Ombwdsmon Seneddol. Ni fu unrhyw ymchwiliadau yn 2003/04.

Rydym hefyd yn gweithredu Cod Hawl i Weld Gwybodaeth y Llywodraeth. Ni chawsom unrhyw geisiadau am wybodaeth yn ystod 2003/04.

Adran 8 Cysylltu â ni

Swyddfa Gorfforaethol

1 Plough Place
Llundain EC4A 1DE
Ffôn: 020 7211 1800
Textphone: 0845 039 0204
Ffacs: 020 7211 1717
Ebost: enquiries@biglotteryfund.org.uk

Swyddfa Cymru

Ail Lawr
Tŷ Ladywell
Y Drenewydd
Powys SY16 1JB
Ffôn: 01686 611700
Minicom: 01686 610205
Ffacs: 01686 621534
Ebost: [ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk](mailto:yhmholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk)

Swyddfa'r Alban

Highlander House
58 Waterloo Street
Glasgow G2 7DB
Ffôn: 0141 223 8600
Minicom: 0141 223 8628
Ffacs: 0141 233 8620
Ebost: enquiries.scotland@biglotteryfund.org.uk

Bydd Swyddfa'r Alban yn symud i leoliad newydd yn Rhagfyr 2004 a bydd manylion cyswllt newydd ar gael ar ein gwefan.

Swyddfa Gogledd Iwerddon

1 Cromac Quay
Cromac Wood
Belfast BT7 2LB
Ffôn: 028 9055 1455
Minicom: 028 9055 1431
Ffacs: 028 9055 1444
Ebost: enquiries.ni@biglotteryfund.org.uk

Swyddfa Grantiau strategol

1st Floor
Chiltern House
St Nicholas Court
25–27 Castlegate
Nottingham NG1 7AR
Ffôn: 0115 934 2950
Ffacs: 0115 934 2952
Fax: 0115 934 2952
Ebost: strategicgrants@biglotteryfund.org.uk

Swyddfeydd rhanbarthol Lloegr

Swyddfa'r Gogledd Ddwyrain

6th Floor
Baron House
4 Neville Street
Newcastle upon Tyne NE1 5NL
Ffôn: 0191 255 1100
Minicom: 0191 233 2099
Ffacs: 0191 233 1997
Ebost: enquiries.ne@biglotteryfund.org.uk

Swyddfa'r Gogledd Orllewin

Ground Floor
Dallam Court
Dallam Lane
Warrington WA2 7LU
Ffôn: 01925 626800
Minicom: 01925 231241
Ffacs: 01925 234041
Ebost: enquiries.nw@biglotteryfund.org.uk

Swyddfa Swydd Efrog a'r Humber

3rd floor
Carlton Tower
34 St Paul's Street
Leeds LS1 2AT
Ffôn: 0113 224 5301
Minicom: 0113 245 4104
Ffacs: 0113 244 0363
Ebost: enquiries.yh@biglotteryfund.org.uk

Swyddfa Dwyrain y Canolbarth

Lower Ground Floor
 Chiltern House
 St Nicholas Court
 25 – 27 Castlegate
 Nottingham NG1 7AR
 Ffôn: 0115 934 9300
 Minicom: 0115 948 4436
 Ffacs: 0115 948 4435
 Ebost: enquiries.em@biglotteryfund.org.uk

Swyddfa Gorllewin y Canolbarth

4th Floor
 Edmund House
 12 – 22 Newhall Street
 Birmingham B3 3NL
 Ffôn: 0121 200 3500
 Minicom: 0121 212 3523
 Ffacs: 0121 212 3081
 Ebost: enquiries.wm@biglotteryfund.org.uk

Swyddfa'r Dwyrain

2nd Floor
 Elizabeth House
 1 High Street
 Chesterton
 Cambridge CB4 1YW
 Ffôn: 01223 449000
 Minicom: 01223 352041
 Ffacs: 01223 312628
 Ebost: enquiries.ea@biglotteryfund.org.uk

Swyddfa Llundain

Camelford House
 89 Albert Embankment
 London SE1 7UF
 Ffôn: 020 7587 6600
 Minicom: 020 7587 6620
 Ffacs: 020 7587 6610
 Ebost: enquiries.lon@biglotteryfund.org.uk

South East

3rd Floor
 Dominion House
 Woodbridge Road
 Guildford
 Surrey GU1 4BN
 Ffôn: 01483 462900
 Minicom: 01483 568764
 Ffacs: 01483 569893
 Ebost: enquiries.se@biglotteryfund.org.uk

Swyddfa'r De Orllewin

Beaufort House
 51 New North Road
 Exeter EX4 4EQ
 Ffôn: 01392 849700
 Minicom: 01392 490633
 Ffacs: 01392 491134
 Ebost: enquiries.sw@biglotteryfund.org.uk

Adran 9

Aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau

Mae gan y Gronfa Gymunedol Fwrdd o 17 aelod gan gynnwys y Cadeirydd, Diana Brittan, a'r Is Gadeirydd, Valerie Strachan.

Mae pwyllgorau dyfarnu grant yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a'r Cadeiryddion hynny'n cydweithio'n agos â Chyfarwyddwr pob gwlad. Mae pwyllgor rhanbarthol ym mhob rhanbarth o Loegr a'r Cadeiryddion hynny'n cydweithio â rheolwr pob rhanbarth. Mae rhai Cadeiryddion yn aelodau o'r Bwrdd hefyd. Y Pwyllgor Grantiau Strategol sy'n ystyried grantiau dros fwy na thri rhanbarth o Loegr neu mwy nag un wlad. Pwyllgor ar lefel Bwrdd yw hwn sy'n delio â'r Rhaglenni Ymchwil a Rhyngwladol hefyd.

Yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n penodi holl aelodau'r Bwrdd.

Mae'r tabl isod yn rhestru aelodau'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn ariannol ac yn nodi Cadeiryddion pob Pwyllgor. Gwasanaethodd pob aelod o'r Bwrdd am y flwyddyn gyfan. Gwahoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol pob aelod o'r Bwrdd i barhau mewn swydd hyd nes penodwyd y Bwrdd ar y cyd ar gyfer y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd fel rhan o'r uniad gweinyddol, a hynny am gyfnod hirach na'u penodiad gwreiddiol. Mae aelodau'r Bwrdd ar y cyd, a ddaeth i fodolaeth ar 1 Mehefin, wedi eu rhestru ar y dudalen nesaf.

Diana Brittan, DBE

Cadeirydd

Pwyllgor Grantiau strategol a Polisi

Valerie Strachan, DCB

Is Gadeirydd

Pwyllgor Adnoddau

Elaine Appelbee, MBE

Cadeirydd pwyllgor Swydd Efrog a'r Humber

Steven Burkeman

Cadeirydd pwyllgor Swydd Efrog a'r Humber

Jeff Carroll

Cadeirydd Pwyllgor Cymru

Paul Cavanagh

Pwyllgor Gogledd Iwerddon

Douglas Graham

Pwyllgor yr Alban ac Archwilio

Kay Hampton

Pwyllgor yr Alban

Taha Idris

Pwyllgor Cymru

Yr Athro James Kearney, OBE

Pwyllgor Gogledd Iwerddon

Sheila-Jane Malley

Pwyllgor Gogledd Iwerddon

Richard Martineau

Pwyllgor rhanbarthol y Dwyrain

Carole Tongue

Pwyllgor rhanbarthol Llundain

Elisabeth Watkins

Pwyllgor Cymru

Ben Whitaker, CBE

Pwyllgor rhanbarthol y De Dwyrain

Aelodau Bwrdd y Gronfa Loteri Fawr o1 Mehefin 2004

Syr Clive Booth

Cadeirydd

Valerie Strachan, DCB

Is Gadeirydd

Dr Samuel Burnside

Aelod Gogledd Iwerddon o'r Bwrdd

David Campbell

Aelod yr Alban o'r Bwrdd

Paul Cavanagh

Aelod Gogledd Iwerddon o'r Bwrdd

Tom Davies

Aelod Cymru o'r Bwrdd

Roland Doven

Aelod Cyffredinol o'r Bwrdd

Breidge Gadd

Aelod Gogledd Iwerddon o'r Bwrdd

John Gartside

Aelod Cyffredinol o'r Bwrdd

Douglas Graham

Aelod yr Alban o'r Bwrdd

Taha Idris

Aelod Cymru o'r Bwrdd

Dugald Mackie

Aelod Cyffredinol o'r Bwrdd

John Naylor

Aelod yr Alban o'r Bwrdd

Esther O'Callaghan

Aelod Cyffredinol o'r Bwrdd

Anna Southall

Aelod Cyffredinol o'r Bwrdd

Huw Vaughan Thomas

Aelod Cymru o'r Bwrdd

Diana Whitworth

Aelod Cyffredinol o'r Bwrdd

Adran 10

Cyfrifon Blynyddol am y Flwyddyn Ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004

Foreword to the accounts

Ffurfiwyd y Gronfa Gymunedol – enw gweithredol Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol – gan y Ddeddf y Loteri Genedlaethol ayb 1993 ac fe'i sefydlwyd ar 1 Awst 1994. Mae'r Gronfa Gymunedol yn gweithio hyd braich oddi wrth y Llywodraeth ac mae ganddi statws Corff Cyhoeddus Anadrannol. O ganlyniad mae'n cael ei rheoleiddio yn unol â'r Datganiad Rheoli a'r Cyfarwyddiadau Ariannol, y Datganiad o Ofynion Ariannol a'r Cyfarwyddiadau Polisi a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Mae strwythur cyfundrefnol y Gronfa Gymunedol yn Fwrdd Llywodraethu sy'n cynnwys Cadeirydd ac 16 aelod. Mae enwau aelodau'r Bwrdd sydd wedi gwasanaethu ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ariannol ac unrhyw newidiadau rhwng diwedd y flwyddyn ariannol a dyddiad cymeradwyo'r cyfrifon wedi eu cynnwys mewn rhan arall o'r cyhoeddiad hwn.

Yn Chwefror 2003, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i'r Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ddod at ei gilydd i greu corff newydd i ddosbarthu arian y Loteri, gan fanteisio ar gryfderau'r cyrff presennol. Ym mis Rhagfyr 2003, penodwyd Stephen Dunmore yn Brif Weithredwr y ddau gorff a dechreuodd ffurfio tîm rheoli ar y cyd i arwain y corff dosbarthu newydd.

Canlyniadau am y flwyddyn

Derbyniodd y Gronfa Gymunedol £224 miliwn o incwm y Loteri a llog yn ystod y flwyddyn a dyfarnodd grantiau gwerth £262 miliwn. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd £400 miliwn o ymrwymadau grant cadarn ar gynigion a dderbyniwyd ac sy'n disgwyl cael eu talu ynghyd â £38 miliwn pellach o ymrwymadau grant meddal sy'n disgwyl eu derbyn. Roedd cyfanswm yr ymrwymadau grant a oedd yn ddyledus yn £438 miliwn o'i gymharu â gweddill yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol o £213 miliwn. Mae'r Gronfa Gymunedol yn monitro lefelau incwm y Loteri yn ofalus ac mae lefel yr ymrwymadau grant sy'n ddyledus yn cael ei ystyried yn ochelgar o'i gymharu ag incwm y gorffennol a'r amcan o incwm yn y dyfodol.

Wedi tynnu £28 miliwn a wariwyd ar weithrediadau, roedd gan y Gronfa Gymunedol ddiffyg o £54 miliwn yn ystod y flwyddyn, sydd wedi ei ychwanegu at y £123 miliwn o ddiffyg net cronus o'r blynyddoedd blaenorol a gariwyd ymlaen.

Yn unol â'i bolisi mae mantolen y Gronfa Gymunedol yn yr NLDF wedi parhau i ostwng o £300 miliwn ar ddechrau'r flwyddyn ariannol i £213 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae targed mantolen yr NLDF yn y cyfwng o 3 – 6 mis o incwm blynyddol (gweler nodyn 1.3).

Arolwg o weithgareddau a datblygiadau'r dyfodol

Prif weithgarwch y Gronfa Gymunedol yw dosbarthu grantiau a hynny'n bennaf i helpu i gwrdd ag anghenion y rhai hynny mewn cymdeithas sy'n wynebu'r anfantais fwyaf a hefyd i wella ansawdd bywyd yn y gymuned. Yn ystod 2003/04 daliodd y Gronfa Gymunedol ati i ddyrannu grantiau, talu grantiau a monitro cydymffurfiad derbynwyr grantiau gyda thelerau ac amodau'r grant. Mae'r Gronfa Gymunedol hefyd wedi parhau i weinyddu'r cynlluniau Arian i Bawb yn Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon ar ran dosbarthwyr eraill arian y Loteri a chynhaliodd asesiad grant a bu'n rheoli'r rhaglenni gofal plant ar ôl ysgol a gofal plant ar ran y Gronfa Cyfleoedd Newydd.

Yn y flwyddyn ariannol nesaf bydd y Gronfa Gymunedol yn gweithredu fel y Gronfa Loteri Fawr a bydd yn parhau i ddarparu rhaglenni grant presennol y Gronfa Gymunedol.

Asedau sefydlog

Mae symudiadau asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn wedi eu dangos yn nodyn 8 y datganiadau ariannol. Yn ystod y flwyddyn roedd yr ychwanegiadau at asedau sefydlog yn £0.4m, ac roedd y rhan fwyaf o hyn yn ganlyniad i waith adnewyddu mewn swyddfeydd dan les.

Digwyddiadau ôl fantolen

Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau o bwys a gafodd effaith ariannol ar y cyfrifon hyn rhwng 31 Mawrth 2004 a llofnodi'r datganiadau ariannol hyn. Ar 1 Mehefin 2004 lanswyd y Gronfa Loteri Fawr gyda chadeirydd newydd a Bwrdd o 16 aelod. Y Gronfa Loteri Fawr yw'r enw gweithredol a roddwyd yr un corff newydd a fydd yn disodli'r Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd.

Cyflogeion

Mae'r Gronfa Gymunedol wedi ymrwymo i sicrhau cyfle cyfartal a cheir disgrifiad mwy manwl o hyn mewn rhan arall o'r cyhoeddiad hwn. Yn unol ag ymrwymiad y Gronfa Gymunedol i gyfle cyfartal yn ei harferion cyflogi rhoddir cymorth arbennig i gyflogeion gydag anabledau ac i gyflogeion a all ddatblygu anabled.

Mae cyflogeion y Gronfa Gymunedol yn cael llais mewn penderfyniadau a all effeithio ar eu hiechyd, diogelwch a lles trwy gyfrwng tîm negodi cenedlaethol sy'n dod â chynrychiolwyr y rheolwyr ac undebau llafur at ei gilydd mewn amgylchedd gwaith. Mae'r Gronfa Gymunedol yn cydnabod yr undeb llafur Amicus MS ar gyfer ymgynghori a chydargainio ac mae wedi datblygu mecanwaith ymgynghori priodol i hwyluso hyn.

Datganiad o bolisi ac arferion talu

Mae'n bolisi gan y Gronfa Gymunedol i gydymffurfio â "Better Payment Practice Code" yr Adran Masnach a Diwydiant (DTI) ac yn arbennig i dalu biliau yn unol â thelerau'r contract. Yn ystod y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2004 roedd 89 y cant (80 y cant yn 2002/03) o anfonebau wedi eu talu o fewn 30 diwrnod.

Ewro

Mae'r Gronfa Gymunedol wedi asesu effaith yr Ewro ar ei waith. Ni ddisgwylir y bydd cyflwyno'r Ewro yn cael effaith berthnasol ar waith y Gronfa Gymunedol na'i pherthynas gyda chwsmeriaid a chyflenwyr.

Archwilwyr

Yn ôl Deddf Loteri Genedlaethol ayb 1993 mae'n ofynnol bod datganiadau ariannol blynyddol y Gronfa Gymunedol yn cael eu harchwilio a'u hardystio gan y Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol. Felly, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn gweithredu fel archwilwyr i'r Gronfa Gymunedol.

Trwy orchymyn y Bwrdd.



Stephen Dunmore

Prif Weithredwr a
Swyddog Cyfrifo
11 October 2004



Sir Clive Booth

Cadeirydd y Gronfa
Gymunedol

Adran 10

Datganiad o gyfrifoldebau'r bwrdd a'r prif weithredwr

O dan Adran 39(1) Deddf y Loteri Genedlaethol ayb 1993, mae'n ofynnol i'r Gronfa Gymunedol baratoi datganiad o gyfrifon am y cyfnod ariannol yn y ffurflen ac yn ôl yr amodau a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyda chydysniad y Trysorlys.

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi ar ffurf groniodol ac mae'n rhaid iddynt fod yn adlewyrchiad cywir a theg o gyflwr y Gronfa Gymunedol ar ddiwedd y flwyddyn ac o'i hincwm a gwariant a llif arian yn y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n rhaid i Aelodau'r Bwrdd:

- gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol a chymhwysio polisiau cyfrifo addas mewn ffordd gyson
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol
- datgan a yw safonau cyfrifo cymwys wedi cael eu dilyn, a datgelu ac egluro unrhyw wriadau perthnasol mewn datganiadau
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol i dybio y bydd y Gronfa Gymunedol yn parhau i weithredu.

Mae Swyddog Cyfrifo'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi penodi Prif Weithredwr y Gronfa Gymunedol fel Swyddog Cyfrifo'r Gronfa Gymunedol. Mae cyfrifoldebau perthnasol y Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus a chadw cofnodion cywir, wedi eu hamlinellu ym memorandum Swyddogion Cyfrifo'r Cyrff Cyhoeddus Anadrannol a luniwyd gan y Trysorlys a gyhoeddwyd yn Government Accounting, ac yn y Cyfarwyddiadau Ariannol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o dan adran 26(3) y Ddeddf.

Stephen Dunmore

Prif Weithredwr

11 October 2004

Datganiad ar reolaeth fewnol

Cwmpas y cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn gyfrifol am gynnal system rheolaeth fewnol gadarn sy'n cefnogi gweithredu polisiau, nodau ac amcanion y Gronfa Gymunedol, tra'n:

- diogelu arian ac asedau cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol amdanynt yn bersonol, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi yn Government Accounting; a
- sicrhau cydymffurfiaid â gofynion y Datganiad Rheoli a'r Cyfarwyddiadau Ariannol, a Datganiad o Ofynion Ariannol y Gronfa Gymunedol. Mae'r rhain wedi eu llunio gan yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac maent yn sicrhau'r fframwaith rheoli eang y mae'n rhaid i'r Gronfa Gymunedol weithio o fewn iddo.

Pwrpas y system rheolaeth fewnol

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi ei chynllunio i reoli risg hyd at lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethiant i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion; gall felly gynnig sicrwydd rhesymol yn unig ac nid absoliwt o effeithiolrwydd. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd wedi ei chynllunio i ganfod a rhoi blaenoriaeth i risgiau sy'n peryglu cyflawniad polisiau, nodau ac amcanion y Gronfa Gymunedol, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'u heffaith pe baent yn cael eu gwireddu, ac i'w rheoli'n effeithlon, effeithiol a darbodus. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod mewn grym yn y Gronfa Gymunedol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blyneddol, mae wedi cydymffurfio â chyfarwyddyd y Trysorlys.

Y gallu i ddelio â risg

Mae'r Gronfa Gymunedol wedi datblygu polisi rheoli risg, sy'n amlinellu cyfrifoldebau'r Bwrdd, y Swyddog Cyfrifo a'r Cyfarwyddwyr a swyddogion penodol eraill. Yn unol â'r polisi hwnnw, mae Tîm Arolygu Rheolaeth Risg yn bodoli sy'n dilyn cynnwys y gofrestr risg gorfforaethol ac sy'n pennu archwaeth risg y Gronfa Gymunedol. Mae'r Tîm Arolygu'n cynnwys y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr eraill.

Mae'r gofrestr risg gorfforaethol yn enwi'r "perchnogion risg" sy'n gyfrifol am adolygu a gwerthuso eu meysydd risg a phenderfynu ar ymatebion priodol i risgiau newydd. Mae rheoli risg yn elfen ganolog o rôl y Cyfarwyddwyr a'r uwch reolwyr. Mae'r Pennaeth Datblygu Gweithrediadau yn darparu cefnogaeth i reolwyr, ac yn ystod y flwyddyn cyhoeddwyd canllawiau pellach i bob staff yn ymwneud yn benodol â risg i enw da'r sefydliad.

Y fframwaith risg a rheolaeth

Gan ddilyn ymlaen o waith blaenorol a wnaethpwyd gan aelodau'r Bwrdd, y rheolwyr a'r staff, mae'r Gronfa Gymunedol wedi canfod risgiau penodol a all amharu ar ei gallu i gyflawni ei hamcanion. Mae effaith posibl pob risg a'r tebygolrwydd y caiff ei gwireddu wedi cael ei asesu ac mae rheolau priodol i liniaru'r risgiau hyn wedi cael eu cyflwyno. Mae hyn oll wedi cael ei gofnodi yn y gofrestr risg gorfforaethol, sy'n cael ei hadolygu ddwywaith y flwyddyn gan y Tîm Arolygu Rheolaeth Risg.

Mae'r Gronfa Gymunedol yn y broses o uno gyda'r Gronfa Cyfleoedd Newydd i ffurfio corff newydd i ddosbarthu arian y Loteri; y Gronfa Loteri Fawr. Mae'r uniad wedi cael ei gyfrif fel risg allweddol ac mae fframweithiau rheolaeth a rheoli wedi cael eu cyflwyno i sicrhau bod y broses o integreiddio swyddogaethau yn cael ei rheoli'n effeithiol.

Adran 10

Mae cofrestr risg gorfforaethol yn cael ei datblygu ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr. Bydd yn ymgorffori risgiau newydd a'r rhai sy'n gyffredin i'r ddau gorff. Bydd aelodau bwrdd y corff dosbarthu newydd yn cymeradwyo'r gofrestr risg newydd.

Adolygu effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol y Gronfa Gymunedol sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau'r archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Yr wyf wedi derbyn cyngor ar oblygiadau fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio ac mae cynllun i roi sylw i'w gwendidau ac i sicrhau gwelliant parhaus wedi ei gyflwyno.

Prif elfennau'r system rheolaeth fewnol am y flwyddyn oedd:

- 1 Bwrdd, sy'n cyfarfod pob deufis i ystyried cyfeiriad strategol y Gronfa Gymunedol. Mae'r Bwrdd yn cynnwys cadeirydd ac 16 o aelodau anweithredol ac mae'n cael ei fynychu gan aelodau'r Tîm Rheoli.
- 2 Tîm Rheoli, sy'n cynnwys Cyfarwyddwyr y Gronfa Gymunedol ac sy'n edrych ar gynlluniau a gweithrediadau y Gronfa Gymunedol a chydymffurfiad â'r Cyfarwyddiadau Polisi a Chyllid a'r Datganiad Rheoli.
- 3 Pwyllgor Archwilio sy'n cyfarfod i ystyried y materion a godwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (archwilwyr allanol y Gronfa Gymunedol), Pennaeth yr Adran Archwilio Mewnol, ac adroddiadau eraill sy'n ymwneud â materion rheolaeth fewnol a rheoli risg, gan gynnwys y gofrestr risg gorfforaethol. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn adrodd i'r Bwrdd ar y materion a drafodwyd gan y Pwyllgor.
- 4 Proses reoli risg fel a ddisgrifiwyd uchod.
- 5 Uned Archwilio Mewnol sy'n gweithio i'r safonau a ddiffinnir yn Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth. Mae gwaith yr archwiliad mewnol yn seiliedig ar y gofrestr risg gorfforaethol a dadansoddiad o'r risg y mae'r Gronfa Gymunedol yn ei hwynebu. Mae cynlluniau'r archwiliad blynyddol yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn ac maent wedi eu cymeradwyo gan y Swyddog Cyfrifo a'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn cyfarfod y Swyddog Cyfrifo'n rheolaidd a bydd yn ei gyfarfod yn flynyddol heb unrhyw swyddogion eraill yn bresennol. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn paratoi adroddiad sicrwydd blynyddol i mi, sy'n cynnwys ei farn annibynnol ar ddigonoldeb, dibynadwyedd ac effeithiolrwydd system archwilio mewnol y Gronfa Gymunedol.
- 6 Mae gan y Gronfa Gymunedol hefyd fframwaith reoli sefydledig wedi'i dogfennu i edrych ar bob agwedd o waith y Gronfa Gymunedol. Mae hyn yn cynnwys: cyfrifydda rheoli ac adrodd ariannol; trefniadau i asesu ceisiadau a rheolaeth y grantiau a ddyfernir; system ddirprwyo ac atebolrwydd sydd wedi'i dogfennu; a gweithdrefnau adnoddau dynol sydd wedi'u dogfennu.

Cydymffurfiad

Mae'r Gronfa Gymunedol wedi cyflwyno gweithdrefnau ym mhob rhan o'r sefydliad i sicrhau bod gofynion y Cyfarwyddiadau Ariannol yn cael eu dilyn. Mae'r Uned Archwilio Mewnol yn gwirio samplau i sicrhau bod pob swyddfa ac adran yn dilyn y gweithdrefnau y cytunwyd arnynt, a sicrhau bod y gweithdrefnau'n cael eu dogfennau a'u lledaenu'n briodol.

Mae'r Gronfa Gymunedol yn cadw Cofrestr o Ddiddordebau ar gyfer y Bwrdd ac aelodau'r pwyllgor a phob aelod o Staff y Gronfa Gymunedol. Mae proses wedi ei chyflwyno i ddelio â gwrthdaro rhwng diddordebau yn achos cyfarfodydd o'r pwyllgor penderfynu ac mae trefniadau mewn grym i atal unrhyw aelod o staff rhag asesu cais am grant gan fudiad y mae ganddynt gysylltiad ag ef.

Yn fy marn i mae'r Gronfa Gymunedol wedi gwneud trefniadau digonol i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â gofynion ein Datganiad Rheoli a'r Cyfarwyddiadau Ariannol.

Stephen Dunmore

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo

Y Gronfa Gymunedol

11 October 2004

Adran 10

46 to 66

Tystysgrif Ac Adroddiad Y Rheolwr A'r Archwiliwr Cyffredinol I Dŵ'r Cyffredin A Senedd Yr Alban

Tystiaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau **Bookmark not defined**. O dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ayb 1993 (fel a ddiwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998). Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol fel a addaswyd trwy ddibrisio rhai asedau sefydlog a'r polisiau cyfrifo a amlinellir ar dudalennau **Error! Bookmark not defined.** **Error!**

49 to 51

Cyfrifoldebau priodol y Gronfa Gymunedol, y Prif Weithredwr a'r Archwiliwr

Fel a ddisgrifiwyd ar dudalen 43, mae'r Gronfa Gymunedol a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol ayb 1993 (fel a ddiwygiwyd) a chyfarwyddiadau a gyhoeddwyd wedi hynny gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gyda chydsyniad Trysorlys EM, ac am sicrhau rheolaidd-dra y trafodion ariannol. Mae'r Gronfa Gymunedol a'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am baratoi Rhagair a chynnwys arall yr Adroddiad Blynyddol. Mae fy nghyfrifoldebau, fel archwiliwr annibynnol, wedi eu pennu trwy statud ac rwyf yn cydymffurfio â'r safonau a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio a'r canllawiau moesegol sy'n berthnasol i waith archwilwyr.

Rwyf yn mynegi fy marn a yw'r datganiadau ariannol yn cyfleu darlun cywir a theg a'u bod wedi eu paratoi'n gywir un unol â Deddf Y Loteri Genedlaethol ayb 1993 (fel a ddiwygiwyd) a'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd trwy hynny, ac a yw gwariant ac incwm wedi cael eu defnyddio mewn ffordd berthnasol i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio i'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Rwyf yn adrodd hefyd os, yn fy marn i, nad yw'r Rhagair yn gydnaws â'r datganiadau ariannol, os nad yw'r Gronfa Gymunedol wedi cadw cofnodion cyfrifo cywir, neu os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Yr wyf yn darllen y wybodaeth arall sydd wedi ei chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol i ystyried a yw'n gydnaws â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Rwyf yn ystyried y goblygiadau i fy nhystysgrif os byddaf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau perthnasol ymddangosiadol gyda'r datganiadau ariannol.

Rwyf yn adolygu a yw'r datganiad ar dudalennau 45 i 47 yn adlewyrchu cydymffurfiaid y Gronfa Gymunedol â chyfarwyddyd y Trysorlys ar y Datganiad Rheolaeth Fewnol. Byddaf yn adrodd os nad yw'n cwrdd â'r gofynion a bennwyd gan y Trysorlys, neu os yw'r wybodaeth yn gamarweiniol neu'n anghydnaws â gwybodaeth arall y gwn amdani trwy fy archwiliad o'r datganiadau ariannol. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried a yw Datganiad y Swyddog Archwilio ar Reolaeth Fewnol yn edrych ar bob risg a rheolaeth. Nid yw'n ofynnol i mi ychwaith fynegi barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y Gronfa Gymunedol na'i gweithdrefnau risg a rheolaeth.

Sail i'r sylwadau ar yr archwiliad

Rwyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio y Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwiliad, ar sail sampl, o dystiolaeth sy'n berthnasol i faint, datgeliadau a rheolaidd-dra trafodion ariannol sydd wedi eu cynnwys yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau a wnaethpwyd gan y Gronfa Gymunedol a'r Prif Weithredwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisiau cyfrifo'n briodol i amgylchiadau'r Gronfa Gymunedol, yn cael eu gweithredu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Yr wyf wedi cynllunio a chynnal fy archwiliad er mwyn canfod yr holl wybodaeth a dybiaf sy'n angenrheidiol i ddarparu digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiad perthnasol, a achoswyd gan gamgymeriad, neu dwyll neu anghysondeb arall a bod, ym mhob ffordd berthnasol, y gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio i ddibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio i'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Trwy ffurfio fy marn yr wyf hefyd wedi gwerthuso'r dull a ddefnyddir i ganfod a yw'n ddigonol i gyflwyno'r wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

Barn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr y Gronfa Gymunedol ar 31 Mawrth 2004 ac o'r diffyg, cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llif arian am y flwyddyn a ddaeth i ben ac maent wedi eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Y Loteri Genedlaethol ayb 1993 (fel a ddiwygiwyd gan Ddeddf Y Loteri Genedlaethol 1998) a'r cyfarwyddiadau a wnaethpwyd trwy hynny gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
- mae'r gwariant ac incwm wedi cael eu defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ym mhob ffordd berthnasol ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio i'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. I have no observations to make on these financial statements.

John Bourn

Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain SW1W 9SP

Dyddiad: 14 October 2004

Cyfrif incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004

	Nodyn	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000	Year ended ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2003 £'000
Incwm			
Elw o'r Loteri Genedlaethol	10	216,474	229,461
Incwm Buddsoddi o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol	10	8,505	19,779
Gostyngiad / (Cynnydd) ar golled o ailbrizio'r buddsoddiad	10	(1,098)	934
Llog banc derbyniadwy		369	393
Adfer grant		2,607	2,309
Incwm arall		5,047	4,749
Cyfanswm Incwm		231,904	257,625
Gwariant			
Yr ymrwymadau grant a wnaed	13	272,294	288,237
Llai ymrwymadau di-rym neu ddiddymedig	13	(14,648)	(21,263)
		257,646	266,974
Costau gweinyddu			
Costau cyflog y gweithwyr	2	16,544	14,517
Costau cyflog aelodau'r bwrdd	3	183	190
Costau gweithredu eraill	4	10,739	12,053
Dibrisiant	8	967	1,126
Cyfanswm y costau gweinyddu	5	28,433	27,886
Diffyg cyn trethiant		(54,175)	(37,235)
Trethiant	7	(81)	(88)
Diffyg am y cyfnod		(54,256)	(37,323)
Diffyg a gadwyd			
Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2003		(123,066)	(85,743)
Diffyg am y cyfnod		(54,256)	(37,323)
Diffyg a gadwyd ar 31 Mawrth 2004		(177,322)	(123,066)

Nid oes gan y Gronfa Gymunedol unrhyw enillion na cholledion cydnabyddedig ac eithrio'r rhai uchod ac o ganlyniad nid oes unrhyw ddatganiad ar wahân o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig wedi'i gyflwyno. Nid oes unrhyw weithgareddau wedi'u dirwyn i ben.

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 49 i 66 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Mantolen fel ar 31 Mawrth 2004

	Nodyn	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000	Year ended ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2003 £'000
Asedau Sefydlog			
Asedau sefydlog diriaethol	8	1,258	1,781
Asedau cyfredol			
Dyledwyr a rhagdaliadau	9	4,045	4,066
Arian yn y banc ac mewn llaw		6,458	6,912
Balans buddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol	10	213,250	299,551
		<u>223,753</u>	<u>310,529</u>
Credydwyr: symiau'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn			
Credydwyr	11	(2,127)	(2,021)
Grantiau a ymrwymwyd i'w talu	13	(235,524)	(251,922)
		<u>(237,651)</u>	<u>(253,943)</u>
Asedau / (cyfrifoldebau) cyfredol net		<u>(13,898)</u>	<u>56,586</u>
Cyfanswm yr asedau llai cyfrifoldebau cyfredol		<u>(12,640)</u>	<u>58,367</u>
Credydwyr: symiau'n dod yn ddyledus wedi blwyddyn			
Grantiau a ymrwymwyd i'w talu	13	(164,336)	(181,269)
Darpariaethau ar gyfer cyfrifoldebau a chostau	12	(346)	(164)
Cyfanswm net (cyfrifoldebau)		<u>(177,322)</u>	<u>(123,066)</u>
Cynrychiolwyd gan:			
Incwm a Gadwyd		<u>(177,322)</u>	<u>(123,066)</u>

Arwyddwyd ar ran Bwrdd y Gronfa Gymunedol a gymeradwyodd y cyfrifon blyneddol ar 11 October 2004.

Stephen Dunmore

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo'r Gronfa Gymunedol

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 49 i 66 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Sir Clive Booth

Cadeirydd y Gronfa Gymunedol

Datganiad Ilif arian hyd at 31 Mawrth 2004

	Nodyn	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000	Year ended ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2003 £'000
Operating activities			
Arian a dynnwyd i lawr o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol		310,182	352,214
Incwm arall		4,138	3,760
Adfer grantiau ac arian parod o ffynonellau eraill		2,607	2,309
Taliadau i gyflenwyr		(10,212)	(13,125)
Taliadau i ac ar ran y gweithwyr		(16,024)	(14,706)
Taliadau i dderbynyddion y grantiau		(290,977)	(328,575)
Llif arian net o weithgareddau gweithredu	15	(286)	1,877
Adenillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid			
Llog banc a dderbyniwyd		369	393
Gwariant Cyfalaf			
Taliadau i brynu asedau sefydlog diriaethol		(448)	(682)
Trethiant			
Treth a dalwyd ar y llog a dderbyniwyd		(89)	(77)
(Gostyngiad) / Cynnydd mewn arian parod		(454)	1,511
Newid yn y gronfa o ganlyniad i'r Ilif arian			
Arian parod fel ar 31 Mawrth 2004		6,458	6,912
Llai arian parod ar 1 Ebrill 2003		(6,912)	(5,401)
Symudiad		(454)	1,511

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 45 i 60 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Nodiadau'r cyfrifon

1. Datganiad o'r polisiau cyfrifo

1.1 Arferion cyfrifo

Paratowyd y cyfrifon hyn dan yr arferion cost hanesyddol a addaswyd i roi ystyriaeth i ailbrisiad yr asedau sefydlog yn unol â'u gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at eu cost gyfredol. Paratowyd y cyfrifon ar ffurf a nodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyda chaniatâd y Trysorlys, yn unol ag Adran 43D(2) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998).*

Er bod Cyfarwyddiadau Cyfrifon y Gronfa Gymunedol yn datgan bod rhaid cynnwys Asedau Sefydlog yn unol â'u gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at eu costau cyfredol, ar gyfer 2003/04, nid yw'r Gronfa Gymunedol yn credu bod y gwerthoedd hyn yn sylfaenol wahanol i'r costau hanesyddol a ddangosir ar y Fantolen. Heb gyfyngu ar yr wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifo a datgelu'r Ddeddf Cwmnïau a'r Safonau Cyfrifo a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo i'r graddau y maent yn briodol.

1.2 Busnes gweithredol

Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol. Lluniwyd yr ymrwymadau grant ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod gan roi ystyriaeth i'r rhagdybiau incwm a ddarparwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Gellir ymestyn yr ymrwymadau grant dros sawl blwyddyn. Mae'r Gronfa Gymunedol yn cynllunio ei chynigion grant fel bod yr all-lif arian rhagdybiol ym mhob blwyddyn yn y dyfodol yn aos oddi mewn i'r incwm cronol disgwylidig gan y Loteri, gan adael swm rhesymol ar gyfer achosion annisgwyl. Cred aelodau'r Bwrdd eu bod wedi edrych yn geidwadol ar yr incwm yn y dyfodol. Serch hynny, maent yn cymryd yn ganiataol, fel mater o bolisi cyhoeddus, y bydd y Loteri'n parhau i weithredu ac yn cynnal canran y Gronfa Gymunedol o Ddosbarthiad y Loteri Genedlaethol fel a nodir yn adrannau 21 i 23 o'r Ddeddf, fel a ddiwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998.

1.3 Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

Mae'r balans a gedwir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDdLG) dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Er hynny, mae'r gyfran o'r balans hwn sy'n briodoladwy i'r Gronfa Gymunedol fel a ddangosir yn y cyfrifon ac, ar ddyddiad y Fantolen, mae wedi'i ardystio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel arian ar gael ar gyfer ei ddsbarthu gan y Gronfa Gymunedol mewn perthynas â'r ymrwymadau presennol a'r ymrwymadau yn y dyfodol.

Mae'r Gronfa Gymunedol yn ceisio cadw'r balans yn CDdLG ar lefel ddoeth er mwyn gwneud y gorau o'r symiau a ddsberthir fel grantiau, ar yr amod y bydd y Gronfa Gymunedol yn parhau i dderbyn sicrwydd digonol na fydd hyn yn amharu ar yr ymrwymadau presennol nac yn cyfyngu'n afresymol ar ei gallu i wneud ymrwymadau yn y dyfodol. O 2005/06 ymlaen, mae'r Gronfa Gymunedol wedi cytuno mai targed hirdymor CDdLG fydd cadw'r balans oddi mewn i amrediad o dri i chwe mis o'r incwm blynyddol. Credir mai dyma'r lefel ddoeth isaf i CDdLG i sicrhau bod modd bodloni'r ymrwymadau wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r ansicrwydd o ragdybio'r incwm yn ystod y tair blynedd nesaf. Roedd y targedau ar gyfer tair blynedd fel a ganlyn: erbyn 31 Mawrth 2004 balans o £230 miliwn yn CDdLG; 2005 £115 miliwn; 2006 £50-£100 miliwn. Seilir y targedau ar ragdybiau incwm a ddarparwyd gan yr ADdCCh ac maent yn caniatáu ar gyfer effaith y Loteri Olympaidd arfaethedig.

1.4 Asedau sefydlog

Mae'r asedau sefydlog yn cael eu troi'n gyfalaf yn y Fantolen yn unol â'u gwerth cost hanesyddol yn hytrach na thrwy gyfeirio at gostau cyfredol, gan na chredir bod y rhain yn sylfaenol wahanol. Mae'r eitemau sy'n costio llai na £2,000 yn cael eu dileu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant ym mlwyddyn eu prynu. Nid yw'r Gronfa Gymunedol yn troi costau datblygu meddalwedd yn gyfalaf.

Nodiadau'r cyfrifon

software development costs.

Darperir dibrisiant yn unol â'r cyfraddau a gyfrifwyd i ddileu prisiad yr asedau ar sail llinell syth dros yr oes ddefnyddiol a gafodd ei hamcangyfrif ar eu cyfer, fel a ganlyn:

Offer sefydlog a ffitiadau	Yr isaf, pedair blynedd neu'r oes sy'n weddill o'r brydles, lle bo hynny'n briodol
Offer swyddfa	Pedair blynedd
Offer TG	Tair blynedd

1.5 Cronfa bensiwn

Gofelir am y gweithwyr dan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS), sef cynllun budd-dâl pendant aml-gyflogwr heb ei ariannu. Er bod y Cynllun yn gynllun budd-dâl pendant, cyfrifoldeb y PGPGS yw talu'r budd-daliadau yn y dyfodol. Mae'r Gronfa Gymunedol yn talu ffi am bob gweithiwr a gyfrifir ar sail gronol. Darperir y budd-daliadau pensiwn drwy gyfrwng y PGPGS. O 1 Hydref 2002, gall y staff sy'n aelodau o'r cynllun fod yn perthyn i un o dri chynllun budd-dâl pendant statudol yn seiliedig ar 'gyflog terfynol' (clasurol, premiwm a chlasurol plws). Gall aelodau newydd wedi 1 Hydref 2002 ddewis rhwng aelodaeth o'r cynllun premiwm neu ymuno â threfniant 'prynu arian' safonol yn seiliedig ar fod yn gyfranddaliwr, gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth). Gwelir y gwahaniaethau rhwng y cynlluniau yng ngwefan www.civilservice-pensions.gov.uk

I nifer bychan o staff, mae'r Gronfa Gymunedol yn gwneud cyfraniadau o 15 y cant o'u cyflog mewn perthynas â chynllun pensiwn preifat neu bersonol o'u dewis hwy. O 1996/97, wedi cyngor gan y Trysorlys, cafodd y gyfradd gyfrannu ar gyfer cynlluniau pensiwn personol newydd ei gostwng i dri y cant.

1.6 Prydlesau gweithredu

Mae costau'r prydlesau gweithredu sydd gan y Gronfa Gymunedol yn cael eu talu o'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn ystod y cyfnod y maent yn berthnasol iddo, ar sail llinell syth.

1.7 Ymrwymadau grant Cynigion ac ymrwymadau grant

Mae'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn datgan bod rhaid gwahaniaethu rhwng ymrwymadau meddal ac ymrwymadau caled.

Diffinnir ymrwymadau caled fel y swm o grant sy'n daladwy dros oes cynllun y mae'r Gronfa Gymunedol wedi llunio cytundeb cyfamodol yn ei gylich gyda'r ymgeisydd. Telir yr ymrwymadau caled o'r cyfrif Incwm a Gwariant yn ystod y flwyddyn pan arwyddir y cytundebau. Dangosir y grantiau caled ar y Fantolen fel credydwr gyda'r balans yn cael ei ostwng wrth i daliadau i dderbynyddion y grantiau gael eu rhyddhau.

Diffinnir ymrwymadau meddal fel cytundeb mewn egwyddor gan y Gronfa Gymunedol i gyllido cynllun a chynnig o grant a wneir i'r ymgeisydd ac y mae'n rhaid i'r ymgeisydd ei dderbyn yn ffurfiol. Dangosir y rhain fel Nodyn yn y cyfrifon ond nid ydynt yn cael eu trin fel rhan o'r Cyfrif Incwm a Gwariant.

Grantiau a delir yn ôl ac a gaiff eu hadfer

Mae amodau grant y Gronfa Gymunedol yn rhoi lle i adfer neu ad-dalu'r grantiau a dalwyd. Gall hyn ddigwydd pan fo'r deilydd yn methu â chydymffurfio â'r amodau a'r telerau neu os yw'r union wariant gan y sawl a dderbyniodd y grant yn gostwng yn is na'r grant a dalwyd ar sail amcangyfrif o'r costau.

Trosglwyddo grantiau

Mae angen trosglwyddo grantiau pan fo'r rhai sydd wedi derbyn y grantiau'n newid eu cyfansoddiad yn ystod y flwyddyn. Gan fod y sefydliad newydd yn endid cyfreithiol newydd, mae'n rhaid diddymu'r hen grant a gwneud cais am, a dyfarnu, grant newydd.

1.8 Asedau trydydd person

Mae'r Gronfa Gymunedol yn dal fel sicrwydd rai asedau sefydlog sy'n perthyn i drydydd personau. Mae'r asedau hyn yn dod i falans banc o £2.7 miliwn a gedwir ar ran dosbarthwyr eraill y Loteri i gyllido dyfarniadau a wneir dan y cynlluniau Arian i Bawb. Ceir hefyd £3.1 miliwn i gyllido dyfarniadau a wneir dan raglenni grant gofal plant y Gronfa Gyfleoedd Newydd. Ni chydabyddir y rhain yn y cyfrifon gan nad oes gan y Gronfa Gymunedol unrhyw ddiddordeb buddiol uniongyrchol ynddynt.

1.9 Rheoli grantiau – cynlluniau ar y cyd

Os yw'r Gronfa Gymunedol wedi llunio cynllun ar y cyd, fel a ddiffinnir yn Neddf y Loteri Genedlaethol 1998, caiff yr ymrwymadau caled a wneir drwy'r cynllun ar y cyd eu cyfrif ar sail cyfran y Gronfa Gymunedol yn y cynllun.

1.10 Cost syniadol y cyfalaf

O 1 Ebrill 2002 bu i Drysorlys EM ddileu'r angen am gyfrif cost syniadol y cyfalaf ar yr asedau a ariannwyd gan y Loteri. .

Nodiadau'r cyfrifon

2. Nifer a chostau'r staff

Roedd costau'r gweithwyr fel a ganlyn:

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2003 £'000
Cyflogau	13,728	12,150
Costau nawdd cymdeithasol	1,079	855
Costau pensiwn	1,737	1,512
	<u>16,544</u>	<u>14,517</u>

Roedd nifer y gweithwyr ar gyfartaledd (ac eithrio'r staff dros dro) a oedd yn gweithio i'r Gronfa Gymunedol yn ystod y flwyddyn yn cynnwys y canlynol:

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 Nifer y gweithwyr ar gyfartaledd	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2003 Nifer y gweithwyr ar gyfartaledd
Rheoli	26	26
Staff ategol	221	210
Staff grantiau	184	175
Busnes y Gronfa Gymunedol	431	411
Dosbarthwyr eraill*	87	82
Cyfanswm y gweithwyr	<u>518</u>	<u>493</u>

* Mae'r Gronfa Gymunedol yn cyflogi staff i brosesu ceisiadau a rheoli grantiau ar ran dosbarthwyr eraill y Loteri dan y cynlluniau Arian i Bawb a Gofal Plant y CGN.

Roedd hawl uwch-reolwyr Y Gronfa Gymunedol i gyflogau a phensiwn fel a ganlyn:

	Cyflog, yn cynnwys bonws perfformiad, ar 31 Mawrth 2004 £'000	Gwir gynnydd mewn pensiwn yn 60 £'000	Cyfanswm y pensiwn cronol yn 60 fel ar 31 Mawrth 2004 £'000	Gwerth trosglwyddiad cyfystyr ag arian parod (GTCAP) ar 31 Mawrth 2004 (neu ddyddiad ymadael) £'000	Gwir gynnydd yn GTCAP wedi addasiad ar gyfer chwyddiant a newidiadau yn ffactorau buddsoddi'r farchnad £'000
Dangosir ffigyrau cymharol 2003 mewn cromfachau.					
Stephen Dunmore (Prif Weithredwr) - o 1 Rhagfyr 2003	15 – 20 (0)	0 (0)	0	0 (0)	0
Richard Buxton (Prif Weithredwr) – tan 30 Tachwedd 2003	145 – 150 ¹ (105 – 110)	20 – 22.5 plws 65 – 67.5 lwmp swm	20 – 25 plws 70 – 75 lwmp swm	331 (23)	44
Ceri Doyle (Cyfarwyddwr, Cymru) - o 29 Mawrth 2004	0 (0)	0	0	0 (0)	0

	Cyflog, yn cynnwys bonws perfformiad, ar 31 Mawrth 2004	Gwir gynnydd mewn pensiwn yn 60	Cyfanswm y pensiwn cronol yn 60 fel ar31 Mawrth 2004	Gwerth trosglwyddiad cyfystyr ag arian parod (GTCAP) ar 31 Mawrth 2004 (neu ddyddiad ymadael)	Gwir gynnydd yn GTCAP wedi addasiad ar gyfer chwyddiant a newidiadau yn ffactorau buddsoddi'r farchnad
Dangosir ffigyrau cymharol in brackets	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
David Fielding (Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol) – hyd at 1 Mai 2004	105–110 ¹ (55–60)	0–2.5 plws 0–2.5	0–5 plws 5–10 lwmp swm	32 (23) lwmp swm	7
Richard Gutch (Cyfarwyddwr Lloegr a Rhaglenni Strategol) – hyd at 31 Ionawr 2004	75–80 (75–80)	5–7.5 plws 20–22.5 lwmp swm	25–30 plws 85–90 lwmp swm	520 ² (398)	0
Adrienne Kelbie (Cyfarwyddwr Gweithrediadau)	80–85 (60–65)	0–2.5 plws 2.5–5 lwmp swm	5–10 plws 20–25 lwmp swm	65 (53)	8
Ann McLaughlin (Cyfarwyddwr Gogledd Iwerddon) – hyd at 15 Chwefror 2004	Nid yw Ms McLaughlin wedi cadarnhau caniatâd i ddatgelu ei chyflog				
Dr Will Miller (Cyfarwyddwr Adnoddau) – hyd at 5 Mai 2004	Mae Dr Miller wedi gwrthod datgelu ei gyflog.				
Gerald Oppenheim (Cyfarwyddwr, Cynllunio a Pherfformiad)	85–90 (75–80)	0–2.5 plws 5–7.5 lwmp swm	30–35 plws 90–95 lwmp swm	467 (409)	39
Andrew Pearce (Cyfarwyddwr Cymru) – hyd at 26 Mawrth 2004	65–70 ¹ (35–40)	0	0	0	0
Vanessa Potter (Cyfarwyddwr, Polisi a Pherthnasoedd Allanol) - o 1 Ionawr 2004	0 (0)	0	0	0 (0)	0
Walter Rader (Cyfarwyddwr, Gogledd Iwerddon) - o 1 Rhagfyr 2003	0 (0)	0	0	0 (0)	0

¹ These Directors received settlements under the terms of the Civil Service Compensation Scheme agreed by the Board. The figure for David Fielding includes remuneration accrued up to his leaving date.

² Richard Gutch received an early retirement package under the terms of the Civil Service compensation scheme which enhanced the value of his pension.

Nodiadau'r cyfrifon

Penodwyd y Prif Weithredwr presennol o 1 Rhagfyr 2003 i fod yn Brif Weithredwr y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Gyfleoedd Newydd ar y cyd. Mae ei gyflog, yn cynnwys ei holl hawliau pensiwn, ar gyfer y rhan o'i gytundeb gwasanaethu gyda'r Gronfa Gyfleoedd Newydd yn cael ei ddatgelu yng nghyfrifon y sefydliad hwnnw. Daw cytundeb y Prif Weithredwr i ben ddiwrnod wedi penodi Prif Weithredwr Cronfa Fawr y Loteri. Mae cytundeb y Prif Weithredwr yn unol â thelerau ac amodau cyflogaeth safonol y Gronfa Gymunedol.

Yn ystod y flwyddyn penodwyd Cyfarwyddwyr i Uwch-Dîm Rheoli Cronfa Fawr y Loteri, tîm cyd-reoli'r Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Gymunedol Newydd. Mae'r Cyfarwyddwyr a gyflogir gan y Gronfa Gymunedol ar gytundebau gwaith parhaol, sy'n eu galluogi i ddarparu gwasanaethau i'r Gronfa Gyfleoedd Newydd ac sy'n ddarostyngedig i delerau ac amodau gwaith safonol y Gronfa Gymunedol.

Cyflogir Cyfarwyddwr Cymru, y Cyfarwyddwr Polisi a Chysylltiadau Allanol a Chyfarwyddwr Gogledd Iwerddon gan y Gronfa Gyfleoedd Newydd dan gytundebau sy'n eu galluogi i ddarparu gwasanaethau i'r Gronfa Gymunedol. Datgelir eu cyflog yng nghyfrifon y sefydliad hwnnw.

Mae Cyfarwyddwr Lloegr a'r Rhaglenni Strategol a'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad wedi dod â blynyddoedd o wasanaeth o waith blaenorol ymlaen oddi mewn i'r un cynllun.

Darperir budd-daliadau pensiwn drwy gyfrwng Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Datgelir mwy am bensiynau yn Nodyn 17. Dengys Colofn 4 o'r tabl uchod werth trosglwyddiad cyfystyr ag arian parod (GTCAP) yr aelodau a oedd wedi cronni ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod adrodd yn ôl. Mae Colofn 5 yn adlewyrchu'r cynnydd yn y GTCAP a gyllidwyd mewn gwirionedd gan y cyflogwr. Mae'n rhoi ystyriaeth i'r cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd yn sgil chwyddiant, y cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (yn cynnwys gwerth unrhyw fudd-daliadau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Ystyr GTCAP yw gwerth cyfalaf y budd-daliadau cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol wedi'u hasesu'n actiwaraid. Y budd-daliadau a brisir yw budd-daliadau cronol yr aelod ac unrhyw bensiwn annisgwyl gan briod sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad yw GTCAP a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau budd-daliadau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fo aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r budd-daliadau a gronnwyd yn yr hen gynllun. Mae'r ffigyrau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r budd-daliadau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch, lle mae datgelu'n berthnasol. Mae'r ffigyrau GTCAP, a'r manylion pensiwn eraill o 2003/04, yn cynnwys gwerth unrhyw fudd-daliadau pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i'r trefniadau PGS ac y mae'r Bleidlais CS wedi derbyn taliad trosglwyddo cyfatebol i'r cyfrifoldebau pensiwn ychwanegol a gymerir yn ganiataol. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd-daliadau pensiwn ychwanegol a gronnodd i aelod o ganlyniad i brynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun ar ei gost ei hun. Mae GTCAP yn cael ei gyfrif oddi mewn i ganllawiau a gyflwynir gan Sefydliad a Chyfadran yr Actiwarïaid.

3. Gwybodaeth am Aelodau'r Bwrdd

Mae gan holl aelodau'r Bwrdd hawl i dderbyn cyflog am yr amser a dreulir ganddynt ar weithgareddau'r Gronfa Gymunedol. Mae'r gweithgareddau hyn, y mae aelodau'r Bwrdd yn gallu hawlio ffioedd am eu cyflawni, yn cynnwys yn bennaf gyfarfodydd ym mhencadlys y Gronfa Gymunedol yn Llundain neu yn swyddfeydd eraill y Gronfa Gymunedol. Talodd y Gronfa Gymunedol gostau teithio a chynhaliaeth aelodau'r Bwrdd a'r cyfrifoldebau treth ar y costau hyn. Ni dderbyniodd unrhyw un o aelodau'r Bwrdd gyfraniadau at bensiwn. Gosodir cyflog yr aelodau hynny o'r Bwrdd a dderbyniodd daliadau, yn cynnwys ad-dalu treuliau trethadwy a'r dreth ar y rheiny, yn y bandiau a ganlyn:

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2003 £'000	
	Remuneration	Expenses	Remuneration	Expenses
Diana Brittan (Cadeirydd)	25–30	5–10	25–30	5–10
Y Fonesig Valerie Strachan	15–20	0–5	15–20	0–5
Jimmy Kearney	5–10	15–20	5–10	10–15
Jeff Carroll	5–10	5–10	5–10	5–10
Kay Hampton	5–10	0–5	5–10	10–15
Richard Martineau	5–10	0–5	5–10	0–5
Benjamin Whitaker	5–10	0–5	0–5	0–5
Sheila Jane Malley	0–5	0–5	0–5	0–5
Carol Tongue	0–5	0–5	0–5	0–5
Taha Idris	0–5	5–10	-	-
Paul Cavanagh	0–5	0–5	0–5	0–5
Elaine Appelbee	0–5	0–5	5–10	0–5
James Strachan	0–5	-	0–5	-
Lorne MacLeod	0–5	-	0–5	5–10
Steven Burkeman	-	5–10	-	5–10
Douglas Graham	-	5–10	-	10–15
Elisabeth Watkins	-	0–5	-	0–5
Rhiannon Bevan	-	-	0–5	0–5

Penodir holl aelodau'r Bwrdd am dair blynedd i ddechrau, gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Nid ydynt yn aelodau o'r cynllun pensiwn a ddefnyddir gan y Gronfa Gymunedol. Ni wnaed unrhyw gyfraniadau gan y Gronfa Gymunedol at gynllun pensiwn ar ran aelodau'r Bwrdd.

Gwahoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol holl aelodau'r Bwrdd i aros yn eu swyddi nes penodir Bwrdd Cronfa Fawr y Loteri, y Bwrdd ar y Cyd ar gyfer y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Gyfleoedd Newydd. Mewn rhai achosion, mae hyn yn mynd â hwy heibio eu tymor gwasanaethu presennol. Rhoddodd Diana Brittan y gorau i'w swydd fel Cadeirydd y Gronfa Gymunedol ar 31 Mai 2004. Daeth Syr Clive Booth yn Gadeirydd Cronfa Fawr y Loteri o 1 Mehefin 2004.

Nodiadau'r cyfrifon

4. Costau gweithredu eraill

Ymhlith y costau gweithredu eraill roedd:

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2003 £'000	
Costau teithio, cynhaliaeth ac eraill (ac eithrio Aelodau'r Bwrdd)				
Staff	783		755	
Pwyllgorau Dyfarniadau Rhanbarthol	35		42	
Lletygarwch	43	861	36	833
Cyflogau'r archwilwyr		41		41
Taliadau'r brydles weithredu		1,286		1,711
TAW na ellir ei adfer		1,796		1,482
Arall		6,755		7,986
		<u>10,739</u>		<u>12,053</u>

5. Cyfanswm y costau gweithredu

Dadansoddiad o'r gwariant gweithredu

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2003 £'000	
Dyfarnu grantiau'n effeithiol	22,664	80%	23,419	84%
Rheoli a gweinyddu	4,382	15%	3,569	13%
Cefnogi'r sector gwirfoddol	1,387	5%	898	3%
Cyfanswm y gwariant gweinyddol	<u>28,433</u>	<u>100%</u>	<u>27,886</u>	<u>100%</u>

Dyfarnu'r grantiau'n effeithiol yw'r gwaith sydd ei angen i redeg rhaglenni grant y Gronfa Gymunedol a'r prosesau gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys costau'r swyddfeydd rhanbarthol a chenedlaethol, asesu ceisiadau, adolygu meysydd rhaglenni a blaenoriaethau, rheoli a monitro dyfarniadau, y pwyllgorau rhanbarthol a chenedlaethol a'r systemau TG sydd eu hangen i gefnogi'r gwaith o roi grantiau.

Rheoli a gweinyddu yw'r gwaith sydd ei angen i redeg y Gronfa Gymunedol fel endid cyfreithiol. Mae hyn yn cynnwys costau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau nad ydynt yn dyfarnu grantiau, swyddfa'r Prif Weithredwr, y gwaith archwilio mewnol a rhai agweddau ar yr adrannau gwasanaethau corfforaethol.

Mae cefnogi'r sector gwirfoddol yn cynnwys gwaith y mentrau cysylltiedig â'r blaenoriaethau strategol sy'n ceisio datblygu cysylltiadau cryfach rhwng deilyddion grantiau sy'n gweithio mewn rhai meysydd a chynnyddu effaith y Gronfa Gymunedol mewn ffyrdd fel cyfran deg neu allgyrhaeddol, a gwaith y swyddogion datblygu.

6. Dangosydd perfformiad ariannol

Nod y Gronfa Gymunedol yw cadw'r costau gweithredu dan 10% o'r incwm. Y sail ar gyfer mesur y dangosydd perfformiad ariannol hwn yw:

Costau gweinyddu llai costau gweinyddu rhaglenni allanol x 100

Cyfanswm incwm llai incwm o weinyddu rhaglenni allanol

Arferid mesur hyn ar gyfer pob blwyddyn unigol; eleni rydym wedi newid sail y cyfnod mesur i ystyried y costau gweinyddu o'u cymharu â'r incwm a dderbyniwyd yn ystod oes y Gronfa. Mae'r costau gweinyddu yn 7.3% o'r incwm a gafodd ei gyfrif ar y sail yma (2003/04, 7.0%). Y rheswm am y cynnydd yn y dangosydd hwn yw'r gostyngiad yn yr incwm gan y Loteri a'r ffaith bod y buddsoddiad yn fwy na'r cynnydd yn y costau gweinyddu. Dan y system flaenorol o fesur, byddai'r costau gweithredu wedi bod yn 10.7% o'r incwm (2002/03, 9.1%).

7. Treth gorfforaeth

Mae'r Gronfa Gymunedol yn talu treth gorfforaeth ar log banc a dderbyniwyd ar gyfradd o 22% mewn gwirionedd (y flwyddyn cynt, 22%). Mae'r dreth sy'n daladwy yn £80,752 (y flwyddyn cynt, £87,534) ac mae hyn yn cynnwys £1,104 o log am daliadau hwyr. Nid yw'r arian a gedwir ac a fuddsoddir gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar ran y Gronfa Gymunedol yn drethadwy.

Nodiadau'r cyfrifon

8. Asedau sefydlog diriaethol

	Offer swyddfa £'000	Offer cyfrifiadurol £'000	Offer sefydlog a ffitiadau £'000	Cyfanswm £'000
Fel cost				
Ar 1 Ebrill 2003	443	905	5,260	6,608
Ychwanegiadau	13	51	384	448
Gwerthiant	(30)	-	(445)	(475)
Ar 31 Mawrth 2004	426	956	5,199	6,581
Dibrisiant cyfredol				
Ar 1 Ebrill 2003	327	657	3,843	4,827
Ffi am y flwyddyn	70	131	766	967
Gwerthiant	(30)	-	(441)	(471)
Ar 31 Mawrth 2004	367	788	4,168	5,323
Gwerth llyfr net				
Ar 31 Mawrth 2004	59	168	1,031	1,258
Ar 31 Mawrth 2003	116	248	1,417	1,781

9. Dyledwyr a rhagdaliadau

	Fel ar 31 Mawrth 2004 £'000	Fel ar 31 Mawrth 2003 £'000
Dyledwyr	1,320	955
Rhagdaliadau	2,725	3,111
	4,045	4,066

10. Balans a gadwyd gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

	£'000	£'000
Cost fel ar 1 Ebrill 2003		299,551
Dosbarthiad gan y Loteri Genedlaethol	216,474	
Incwm Buddsoddi a enillwyd	8,505	
Arian a dynnwyd i lawr	(310,182)	
Gostyngiad net yn y balans		(85,203)
Cost ar 31 Mawrth 2004		214,348
Colled heb ei gwireddu ar fuddsoddiad		(1,098)
Gwerth y farchnad ar 31 Mawrth 2004		213,250

Ar 31 Mawrth 2004 roedd gwerth marchnad balans y Gronfa Gymunedol a gadwyd gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDdLG) yn £213 m.

Rheolir yr arian a gedwir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol gan y Comisiynwyr ar gyfer gostwng y ddyled genedlaethol (a elwid yn Gomisiynwyr y Ddyled Genedlaethol gynt). Derbyniodd y Gronfa Gymunedol 16.7% o'r arian a dalwyd gan Gr_p Camelot Ccc i Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol wedi tynnu'r treuliau taladwy i'r gronfa gyfnerthedig ar gyfer costau'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wrth ymarfer ei swyddogaethau dan y Ddeddf, costau'r rheolydd (Comisiwn y Loteri Genedlaethol) a chostau'r buddsoddwr (Comisiynwyr ar gyfer gostwng y ddyled genedlaethol). Mae cyfrif buddsoddi Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn cael ei ailbriso cyn unrhyw drafodion ariannol, boed yn dderbyn neu'n dynnu i lawr, a rhennir y llog yn unol â fformiwla seiliedig ar y balans a gedwir gan y corff fel cymhareb o gyfanswm y balans.

11. Credydwy'r : symiau'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn

	Fel ar 31 Mawrth 2004 £'000	Fel ar 31 Mawrth 2003 £'000
Credydwy'r masnach	487	1,090
Credydwy'r eraill	627	170
Croniadau ac incwm gohiriedig	933	673
Treth gorfforaeth	80	88
	2,127	2,021

Nodiadau'r cyfrifon

12. Darpariaethau ar gyfer cyfrifoldebau a ffioedd

	Taliadau prydles na ellir eu hosgoi	Cyfraniadau ymddeoliad cynnar	Cyfanswm y darpariaethau
	£'000	£'000	£'000
Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2003	164	-	164
Tynnwyd o'r gwariant gweinyddol yn ystod y flwyddyn	298	50	348
Taliadau a wnaed	(164)	(2)	(166)
Cariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2004	298	48	346

Yn ystod y flwyddyn ariannol gadawodd y Gronfa Gymunedol ei heiddo yn St Vincent's House a Kings House yn Llundain. Mae prydles y ddau eiddo yma'n dod i ben fis Rhagfyr 2004 ond mae angen gwneud iawn am ddadfeiliad cyn y dyddiad hwn. Hefyd yn ystod y flwyddyn, gadawodd y Gronfa Gymunedol Hildon House, Belffast; ni ellid canslo nac ail-osod y brydles hon. Mae FRS12 yn caniatáu i'r darpariaethau gydnabod yr amcangyfrif gorau o daliadau prydles na ellir eu hosgoi. Roedd y ddarpariaeth yn 2002/03 yn cynnwys costau prydles na ellid eu hosgoi wrth adael swyddfa'r Gronfa Gymunedol yng Nghaeredin; cafodd y costau hyn eu setlo yn ystod 2003/04.

Fel rhan o'r ailstrwythuro yn sgil yr uniad gweinyddol gyda'r Gronfa Gyfleoedd Newydd, mae rhai staff cymwys wedi cytuno i ymddeol yn gynnar. O ganlyniad i'r cytundebau hyn, mae gan y Gronfa Gymunedol gytundeb i dalu rhai cyfraniadau pensiwn penodol hyd at ddyddiad ymddeol statudol yr unigolion hyn. Mae amcangyfrif o gyfraniadau'r dyfodol wedi cael ei ddarparu ar gyfer y staff a oedd wedi llunio cytundebau ymddeoliad cynnar terfynol cyn 31 Mawrth 2004.

13. Ymrwymadau grant

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2003 £'000	
Ymrwymadau Meddal				
Ymrwymadau meddal a ddygwyd ymlaen		48,105		52,479
Ymrwymadau meddal a wnaed		262,200		284,981
Ymrwymadau meddal di-rym a diddymedig		138		(1,118)
Ymrwymadau meddal a drosglwyddwyd yn ymrwymadau caled		(272,294)		(288,237)
		<u>38,149</u>		<u>48,105</u>
Ymrwymadau Caled				
Ymrwymadau caled a ddygwyd ymlaen		433,191		494,792
Ymrwymadau caled a wnaed	272,294		288,237	
Ymrwymadau caled di-rym a diddymedig	(14,648)		(21,263)	
Ymrwymadau caled a fodlonwyd	<u>(290,977)</u>		<u>(328,575)</u>	
Symudiad net yn yr ymrwymadau caled		<u>(33,331)</u>		<u>(61,601)</u>
Ymrwymadau caled a gariwyd ymlaen		<u>399,860</u>		<u>433,191</u>
Ymrwymadau caled yn heneiddio				
I'w talu o fewn blwyddyn		<u>235,524</u>		<u>251,922</u>
I'w talu wedi blwyddyn				
	2005/06	126,965	2004/05	136,823
	2006/07	35,813	2005/06	44,036
	2007/08	1,265	2006/07	369
	2008/09	293	2007/08	41
		<u>164,336</u>		<u>181,269</u>
Cyfanswm yr ymrwymadau		<u>399,860</u>		<u>433,191</u>

Mae'r ymrwymadau caled a wnaed a'r ymrwymadau caled di-rym neu diddymedig yn cynnwys £8,804,496 o drosglwyddiadau grant(2003/04 £8,452,019). Gweler Nodyn 1.7.

14. Cynlluniau ar y cyd

Mae'r Gronfa Gymunedol wedi arwyddo Memorandwm Cytundeb gyda'r Gronfa Gyfleoedd Newydd, Sport England, Cyngor Celfyddydau Lloegr a Chronfa Dreftadaeth y Loteri i gyllido, o 1 Ebrill 2002 ymlaen, cronfa ar y cyd ar gyfer Arian i Bawb yn Lloegr. Yn rhan o'r ymrwymadau caled mae £9,948,000 miliwn o ymrwymadau grant newydd a £49,000 o ymrwymadau grant a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth, gan gynrychioli cyfraniad y Gronfa Gymunedol i gynllun Arian i Bawb, Lloegr, ar y cyd. Gweinyddir y cynllun hwn gan y Gronfa Gymunedol ar ran pawb sy'n rhan o'r cytundeb.

Nodiadau'r cyfrifon

15. Cysoni'r incwm a'r gwariant gyda'r mewnlif arian net o weithgareddau gweithredu

	Y flwyddyn a ddaethi ben ar 31 Mawrth 2004 £'000	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2003 £'000
Diffyg cyn treth	(54,175)	(37,235)
Dibrisiant asedau sefydlog	967	1,126
Colled ar werthu asedau sefydlog	4	84
Incwm llog	(369)	(393)
Net cost from Cost net o weithgareddau gweithredu	(53,573)	(36,418)
Gostyngiad /(Cynnydd) mewn dyledwyr	21	(1,555)
Gostyngiad ym malans CDdLG	86,301	102,040
Cynnydd /(Gostyngiad) mewn credydwyr	114	(753)
Gostyngiad) yn y ddarpariaeth ar gyfer yr ymrwymadau grant	(33,331)	(61,601)
Cynnydd yn y darpariaethau	182	164
Mewnlif / (all-lif) arian net o weithgareddau gweithredu	(286)	1,877

16. Risg ariannol

Mae'n ofynnol i'r Gronfa Gymunedol ddatgelu effaith offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod wrth greu neu newid y risgiau y mae'r Gronfa Gymunedol yn eu hwynebu wrth gyflawni ei rôl.

Risgiau hylifedd

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004, daeth 216 miliwn (94 y cant) o incwm y Gronfa Gymunedol o'r Loteri Genedlaethol. Daeth gweddill yr incwm o adenillion buddsoddi o'r balans a gadwyd yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol, £7 miliwn (3 y cant), ac o log banc ac incwm arall, £8 miliwn (3 y cant).

Ar 31 Mawrth 2004 roedd gan y Gronfa Gymunedol gyfrifoldebau net o £177 miliwn ac ymrwymadau meddal o £38 miliwn. Er bod y Gronfa Gymunedol wedi gwneud ymrwymadau sy'n fwy na'i hasedau, nid yw'r Bwrdd yn teimlo bod y Gronfa Gymunedol yn wynebu risgiau hylifedd arwyddocaol oherwydd ni fydd llawer o'r ymrwymadau hyn yn cael eu talu tan ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol nesaf. Y rheswm am hyn yw am na fydd y Gronfa Gymunedol yn gadael i ddeilyddion y grantiau dynnu unrhyw arian i lawr nes eu bod wedi profi eu hangen i dderbyn y gyfran nesaf o arian grant a neilltuwyd iddynt. Oherwydd y gwahaniaeth mewn amser rhwng y dyddiad pryd mae deilydd y grant yn derbyn cynnig o grant gan y Gronfa a'r dyddiad pryd mae deilydd y grant yn dechrau tynnu'r arian hwn i lawr, anogir y Gronfa Gymunedol gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, i orymroi'r arian sydd ar gael.

Asedau hylifol ar 31 Mawrth 2004	£'000
Gwerth buddsoddiadau CDdLG ar y farchnad	213
Arian parod	6
	<hr/>
	219
Llif arian rhagdybiol yn ystod 2004/2005	
Incwm o'r Loteri Genedlaethol	216
Taliadau costau gweinyddol	(28)
Taliadau grant	(270)
	<hr/>
Asedau hylifol rhagdybiol ar 31 Mawrth 2005	137

Seilir y rhagdybiadau incwm ar gyfarwyddyd a ddarperir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Seilir y taliadau grant rhagdybiol ar yr amcangyfrifon o'r proffiliau tynnu grant i lawr a gyflwynir gan dderbynwyr y grantiau adeg y dyfarniad.

Risgiau cyfraddau llog

Buddsoddir asedau ariannol y Gronfa Gymunedol yn CDdLG, sy'n buddsoddi mewn band cyfyng o asedau risg isel, fel bondiau ac arian parod y Llywodraeth. Nid oes gan y Bwrdd unrhyw reolaeth dros fuddsoddiad yr arian yn CDdLG. Ar ddyddiad y Fantolen, roedd gwerth marchnad y buddsoddiad yn CDdLG yn £300 miliwn. Yn ystod y flwyddyn roedd yr adenillion ar y buddsoddiadau hyn yn 3.1 y cant ar gyfartaledd.

Cedwir yr arian parod sy'n cael ei dynnu i lawr o'r Gronfa Gymunedol i dalu ymrwymadau grant a chostau gweithredu mewn cyfrifon banc y gellir mynd at eich pres ar unwaith ynddynt, gyda chyfraddau llog amrywiol, a chafwyd cyfradd llog o 6% ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn. Roedd yr arian parod ar ddiwedd y flwyddyn yn £6 miliwn. Nid yw'r Bwrdd yn credu bod y Gronfa Gymunedol yn wynebu risgiau sylweddol mewn perthynas â chyfraddau llog ei falansau.

Risgiau arian tramor

Nid yw'r Gronfa Gymunedol yn wynebu unrhyw risgiau arian tramor.

17. Ymrwymadau ariannol

Ymrwymadau dan brydlesau gweithredu

Ar 31 Mawrth 2004, roedd gan y Gronfa Gymunedol yr ymrwymadau blynyddol a ganlyn dan y prydlesau gweithredu.

	Ceir ar brydles	Tir ac adeiladau	Fel ar 31 Mawrth 2004	Fel ar 31 Mawrth 2003
	£'000	£'000	£'000	£'000
Yn dod i ben mewn llai na blwyddyn	9	600	609	291
Yn dod i ben mewn un i bum mlynedd	4	686	690	1,528
Yn dod i ben mewn mwy na phum mlynedd	-	473	473	136
	<hr/>	<hr/>	<hr/>	<hr/>
	13	1,759	1,772	1,955

Ymrwymadau ariannol

Roedd y swm a gontractiwyd gyda Logica CMG Ccc ar 31 Mawrth 2004, ond na ddarparwyd ar ei gyfer, yn £195,755 (y flwyddyn gynt, £202,480). Cytundeb oedd hwn ar gyfer cefnogaeth barhaus system ddyfarnu grantiau'r Gronfa Gymunedol.

Roedd y swm a gontractiwyd gyda Swyddfa Fasnach y Llywodraeth ar 31 Mawrth 2004, ond na ddarparwyd ar ei gyfer, yn £180,000 (y flwyddyn gynt, £180,000). Cytundeb oedd hwn ar gyfer darparu gwasanaeth Rhwydwaith Ardal Eang.

Nodiadau'r cyfrifon

18. Cynllun pensiwn

Darperir budd-daliadau pensiwn drwy drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGS). O 1 Hydref 2002 ymlaen, gall gweision sifil fod yn perthyn i un o dri chynllun "cyflog terfynol" statudol penodol (clasurol, premiwm neu glasurol plws). Nid yw'r cynlluniau'n cael eu cyllido, telir y costau gan arian a bennir gan y Senedd bob blwyddyn. Mae'r pensiwnau a delir dan y cynlluniau clasurol, premiwm a chlasurol plws yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â'r newidiadau i'r Mynegai Prisiau Adwerthu. Gall aelodau newydd o 1 Hydref 2002 ddewis rhwng aelodaeth breimiwm neu ymuno â threfniant cyfranddeiliad safonol drwy "brynu arian" gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Pennir cyfraniadau'r gweithwyr ar gyfradd o 1.5% o'r enillion pensiynadwy ar gyfer y cynllun clasurol a 3.5% ar gyfer y cynlluniau premiwm a chlasurol plws. Mae budd-daliadau'r cynllun clasurol yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r cyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o'r gwasanaeth. Hefyd, mae lwmp swm cyfwerth â phensiwn tair blynedd yn daladwy wrth ymddeol. Ar gyfer y cynllun premiwm, mae'r budd-daliadau'n cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun clasurol, ni cheir unrhyw lwmp swm awtomatig (ond fe all yr aelodau ildio (cymudo) peth o'u pensiwn i ddarparu lwmp swm). Amrywiad ar y cynllun premiwm yw'r cynllun clasurol plws yn ei hanfod, ond gyda'r budd-daliadau mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrif yn fras yn unol â chlasurol.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliad yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 3% a 12.5% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i bensiwn cyfranddeiliad a ddewisir gan y gweithiwr. Nid oes raid i'r gweithiwr gyfrannu ond os yw'n gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at uchafswm o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yr yswiriant risg a ddarperir yn ganolog (marw wrth wasanaethu ac ymddeol oherwydd salwch).

Ceir manylion pellach am drefniadau PGS yn y wefan, www.civilservice-pensions.gov.uk.

Ar gyfer 2003/04, roedd cyfraniadau'r cyflogwyr o £1,737,000 yn daladwy i PGPGS (2002 - £1,512,000) ar un o bedair cyfradd yn yr ystod o 12 - 18.5 y cant o'r cyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog (fel a ddangosir isod). Bydd y cyfraddau'n aros yr un fath ar gyfer y flwyddyn nesaf, gan ddibynnu ar ailbrisiad y bandiau cyflog. Dylid adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd wedi gwerthusiad llawn o'r cynllun gan Actiwari'r Llywodraeth. Mae'r cyfraddau cyfrannu'n adlewyrchu'r budd-daliadau fel maent wedi cronni, nid pan fo'r costau'n dod i rym, ac maent yn adlewyrchu profiadau'r cynllun yn y gorffennol.

Bandiau	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004
£17,000 a llai	12%
£17,001 - £35,000	13.5%
£35,001 - £60,500	16.5%
£60,500 a mwy	18.5%

Bandiau	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2003
£16,500 a llai	12%
£16,501 - £34,000	13.5%
£34,001 to £59,000	16.5%
£59,001 a mwy	18.5%

19. Taliadau arbennig a cholledion

Mae'n ofynnol datgelu unrhyw daliadau arbennig a cholledion os ydynt yn fwy na £100,000.

Gwneir taliadau arbennig pan fo grant wedi cael ei roi'n esgeulus i sefydliad nad yw'n gymwys dan y gyfraith ond lle mae'r grant oddi mewn i fwriad eang y ddeddfwriaeth statudol. Gwariwyd yr holl ddyfarniadau hyn ar nodau prosiect yn unol ag amodau a thelerau'r grant. Yn ystod y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2004, gwnaed cyfanswm o £1,337,868 o daliadau arbennig (y flwyddyn cynt - £1,147,524).

Roedd y rhai dros £100,000 fel a ganlyn:

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar Mawrth 2004 £000
Y Rhwydwaith Grym i Gymunedau	199
Gweithwyr Di-Waith Rhydychen ac Undeb Claimants	178
Maa Aur Bachay	177
Grŵp Datblygu Economaidd Cymunedol Slough	174
Canolfan Adnoddau Cyflogaeth Milton Court	239
Symiau llai na £100,000	371
	1,338

Gwnaed taliadau cydnabyddiaeth yn dod i gyfanswm o £71,781 i bum aelod o'r Uwch-Dîm Reoli sydd wedi gadael y Gronfa fel rhan o gynllun ailstrwythuro'r tîm rheoli ar gyfer creu Cronfa Fawr y Loteri.

Ceir colledion pan nad oes tystiolaeth bod nodau'r prosiect wedi'u bodloni. Yn ystod y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2004 daeth y colledion i gyfanswm o £1,679,544 (y flwyddyn gynt - £1,247,283).

Roedd y rhai dros £100,000 fel a ganlyn:

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar Mawrth 2004 £000
Hyfforddiant Menter Ieuencid a Phrosiect	
Canolfan Gymdeithasol Platt Bridge	318
Body Positive	149
Ymddiriedolaeth Wildside	109
Cyngor Cydraddoldeb Hiliol Lewisham	105
Green Adventure	102
Menter Tu Allan i Ysgol Northumberland (NOOSI)	102
Symiau llai na £100,000	794
	1,679

Yn ystod y flwyddyn parhaodd y Gronfa Gymunedol i glirio hen bentwr o grantiau bychain. Roedd hyn yn cynnwys dileu 54 o grantiau bychain yn dod i gyfanswm o £139,017 (2002/2003 - 110 o grantiau'n dod i gyfanswm o £300,946).

Nodiadau'r cyfrifon

20. Trafodion cyrff cysylltiedig

Corff cyhoeddus anadrannol a noddir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (ADdCCh) yw'r Gronfa Gymunedol. Credir bod yr ADdCCh yn gorff cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Gronfa Gymunedol wedi cael llawer o drafodion gyda'r ADdCCh.

Hefyd, mae'r Gronfa Gymunedol wedi gwneud nifer o drafodion gydag adrannau a chyrff y Llywodraeth sy'n ystyried adrannau eraill y Llywodraeth fel eu hadran noddi. Mae'r rhan fwyaf o'r trafodion hyn wedi bod gyda'r Swyddfa Gartref.

Mae'r Gronfa Gymunedol yn cadw at god ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Aelodau Byrddau cyrff cyhoeddus. Mae'r Gronfa Gymunedol yn cadw cofrestr o ddiddordebau Aelodau'r Bwrdd, cadeiryddion ac aelodau'r Pwyllgorau Ymgynghori Rhanbarthol a'r staff i gyd. Pan wneir unrhyw benderfyniadau pwyllgor y gellid eu hystyried yn rhesymol fel penderfyniadau'n creu gwrthdaro, yn bennaf ynghylch grantiau i gyrff gwirfoddol, mae cadeirydd y cyfarfod yn sicrhau ar y dechrau bod unrhyw ddiddordeb yn cael ei ddatgelu a bod yr aelod o'r pwyllgor yn gadael yr ystafell tra bo'r eitem berthnasol yn cael ei thrafod. Mae gweithdrefnau'r Gronfa Gymunedol hefyd yn sicrhau nad yw swyddogion grant yn rhan o'r gwaith o brosesu ceisiadau y byddai ganddynt ddiddordeb ynddynt.

Dyfarnwyd 68 o grantiau'n dod i gyfanswm o £10,378,055 yn ystod y flwyddyn gydag aelodau'r pwyllgorau'n datgan diddordeb yn y penderfyniad i roi grant (y flwyddyn cynt, 79 grant yn dod i gyfanswm o £10,320,272). Ym mhob achos, roedd yr aelod dan sylw'n cydymffurfio â'r gweithdrefnau gwrthdaro rhwng diddordebau a ddisgrifir mewn rhan arall o'r adroddiad hwn.

Adran 11

Cefndir statudol

Sefydlwyd y Gronfa Gymunedol – enw gweithredol Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol – fel corff cyhoeddus anadrannol gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ayb 1993, wedi ei addasu gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998 a ddaeth i fodolaeth ar 2 Medi 1998. Mae'r Ddeddf yn datgan y gyfran o'r Loteri Genedlaethol i'w dderbyn ac yn arolygu penodiad pwyllgorau ar gyfer dyfarnu grantiau. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol rym o dan y Ddeddf i roi cyfarwyddiadau yngl_n â'r materion y dylid eu hystyried wrth wneud grantiau a'r amgylchiadau ar gyfer dosbarthu arian. Rhyddhaodd yr Ysgrifennydd Gwladol y Cyfarwyddiadau Polisi a'r Cyfarwyddiadau Ariannol yn 1995. Diweddarwyd y ddau yn Chwefror 1999 a diwygiwyd y Cyfarwyddiadau Ariannol ymhellach ym Mehefin 2002. Mae'r Gronfa Gymunedol wedi cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau hyn gydol y flwyddyn ariannol 2002–2003 ym mhob modd materol.

Cyfarwyddiadau ariannol

Deddf y Loteri Genedlaethol ayb 1993 (a ddiweddarwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998).

Cyfarwyddiadau ariannol i'w cyhoeddi i Fwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol (enw cyfreithiol y Gronfa Gymunedol) o dan adran 26(3), (3A) a (4).

- (i) Rhaid i Fwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol “y Bwrdd” gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y Datganiad Gofynion Ariannol sydd ynghlwm fel Atodiad i'r cyfarwyddiadau hyn tra'n ymgymryd â'i swyddogaethau o dan adran 25 Deddf y Loteri Genedlaethol ayb. 1993 (y Ddeddf) ac a ddiweddarwyd yn Deddf y Loteri Genedlaethol 1998 (“deddf 1998”). Lle bo hynny wedi ei nodi yn y Ddogfen honno, rhaid i'r Bwrdd gael caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol cyn ymgymryd â rhai gweithgareddau

- (ii) Rhaid i'r Bwrdd lunio a glynu wrth drefn ar gyfer ymdrin â gwrthdaro posibl rhwng buddiannau a allai godi wrth gloriannu'r ceisiadau, gan y Bwrdd ei hun neu gan aelodau unigol o'r Bwrdd. Rhaid cyflwyno'r drefn ynghyd â'r datganiad yn cadarnhau fod y trefniadau wedi eu cymhwyso i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon “yr Ysgrifennydd Gwladol” cyn dosbarthu unrhyw gyllid o dan adran 25 y Ddeddf ac, yn dilyn hynny, ar ddechrau pob blwyddyn ariannol.

Llofnodwyd trwy awdurdod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ACB Ramsay, Pennaeth Grŵp yn yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

ACB Ramsay

Cyfarwyddwr Diwydiannau Creadigol, Darlledu a Gamblo

Cydymffurfiwyd â'r Cyfarwyddiadau fel a ganlyn:

- (i) Rydym wedi rhoi dulliau o weithredu mewn grym drwy'r sefydliad cyfan er mwyn sicrhau bod y Datganiad o Ofynion Ariannol yn cael eu dilyn. Rydym yn cynnal gwasanaeth archwilio mewnol er mwyn sicrhau ar sail sampl bod pob swyddog ac adran yn dilyn y dulliau o weithredu priodol, ac i sicrhau bod y dulliau hyn o weithredu yn cael eu dogfennu a'u dosbarthu'n gywir. Gellir cael copi cyflawn o'r Datganiad o ofynion ariannol gan Gyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad y Gronfa Loteri Fawr .

Adran 11

(ii) Rydym yn cadw cofrestr o ddiddordebau ar gyfer aelodau'r Bwrdd, aelodau'r Pwyllgorau Rhanbarthol yn Lloegr, aelodau cyfetholedig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a'r holl staff. Pan fo unrhyw benderfyniadau Pwyllgor yn cael eu gwneud a fyddai o bosib' yn achosi gwrthdaro diddordebau, mae Cadeirydd y cyfarfod yn sicrhau ei fod yn cael ei ddatgan a bod yr aelod o'r Pwyllgor yn gadael yr ystafell tra caiff yr eitem dan sylw ei drafod. Mae trefniadau'n bodoli hefyd er mwyn rhwystro unrhyw aelod o staff rhag asesu ffurflen gais gan fudiad maent yn gysylltiedig ag ef. Mae manylion am y trefniadau hyn wedi'u hysbysu i'r Ysgrifennydd Gwladol bob blwyddyn.

Cyfarwyddiadau Polisi

Mae'r Gronfa Gymunedol yn gorff cyhoeddus an-adrannol ac felly'n gweithredu o dan y cyfarwyddiadau polisi a gyhoeddir gan ein hadran nawdd, yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon. Y cyfarwyddiadau polisi sy'n gosod sail i'r egwyddorion y mae'n rhaid i ni gydymffurfio â nhw. Maent yn cael eu diweddarau o dro i dro; cyhoeddwyd y Cyfarwyddiadau diweddaraf yn Chwefror 1999.

Mae'r deg cyfarwyddyd wedi eu rhestru isod. Mae nodyn am ein cydymffurfiad yn dilyn pob un.

A. *Yr angen i sicrhau mai dim ond at ddibenion elusennol (boed hynny'n elusennol trwy gyfraith ai peidio), llesiannol neu ddyngarol y dosberthir yr arian.*

